# Cwestiynau Ysgrifenedig a atebwyd rhwng 20 a 27 Mai 2004

[R] yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.
[W] yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.

## Cynnwys


2 Cwestiynau i'r Prif Weinidog

2 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Ddiwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon

5 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth

13 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes

15 Cwestiynau i'r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad

21 Cwestiynau i'r Gweinidog Cyllid

24 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

37 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio

## Cwestiynau i'r Prif Weinidog

### Cwnsler Cyffredinol Cymru (Swydd Heb ei Llenwi)

**Nick Bourne:** A wnaiff y Prif Weinidog roi'r newyddion diweddaraf ynghylch swydd Cwnsler Cyffredinol Cymru nad yw wedi'i llenwi? (WAQ35358)

**Y Prif Weinidog (Rhodri Morgan):** Mae'r Ysgrifennydd Parhaol yn ystyried y mater ac yr wyf yn aros am ei gyngor.

### Cyn Weithwyr ASW (Sefyllfa o ran Pensiwn)

**Nick Bourne:** Pa sylwadau y mae Prif Weinidog Cymru wedi'u cyflwyno mewn perthynas â sefyllfa cyn weithwyr ASW o ran pensiwn, a beth oedd ymateb ei gydweithwyr yn San Steffan? (WAQ35360)

**Y Prif Weinidog:** Mewn cyfarfod â'r Ysgrifennydd Gwladol dros Waith a Phensiynau, Andrew Smith AS, ar 6 Mai, pwysais am ymateb cadarnhaol i'r apeliadau a oedd wedi cael eu gwneud ar ran aelodau o gynllun pensiwn ASW sy'n cael ei ddirwyn i ben. Ymateb yr Ysgrifennydd Gwladol oedd bod Llywodraeth Ei Mawrhydi yn dal i chwilio am ffordd ymlaen a fyddai'n ateb anghenion aelodau o gynlluniau pensiwn preifat sydd bellach yn cael eu dirwyn i ben, gan gynnwys ASW, heb osod cynsail, na fyddai modd ei gostio, i hawliadau am iawndal ariannol o arian cyhoeddus gan grwpiau ac unigolion eraill. Yr wyf yn falch bod Andrew Smith wedi cyhoeddi, ddydd Gwener 14 Mai, y byddai'r Llywodraeth, er nad yw'n derbyn atebolrwydd nac yn talu iawndal, yn sefydlu cronfa ymddiried, a fyddai'n cynnig cymorth sylweddol i'r rhai a gafodd y golled fwyaf. Caiff ei ariannu â £400 miliwn o arian y Llywodraeth dros yr 20 mlynedd nesaf, gyda phosibilrwydd y caiff gyfraniadau ychwanegol oddi wrth ddiwydiant.

### Dodrefn ar gyfer Gweithio Gartref

**Nick Bourne:** A wnaiff y Gweinidog ddweud a yw'r cyrff cyhoeddus a noddir gan y Cynulliad y mae ef yn gyfrifol amdanynt yn darparu dodrefn er mwyn hwyluso gweithio gartref? (WAQ35690)

**Y Prif Weinidog:** Materion i'r cyrff cyhoeddus unigol a noddir gan y Cynulliad yw materion yn ymwneud â swyddfeydd. Nid yw'r wybodaeth yn cael ei chadw'n ganolog.

### Ymuno â'r Ewro

**Nick Bourne:** Faint y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi'i wario i baratoi Cymru ar gyfer ymuno â'r ewro? (WAQ35711)

**Y Prif Weinidog:** Trysorlys Ei Mawrhydi sy'n gyfrifol am baratoadau ar gyfer yr ewro ledled y DU. Mae amser staff wedi cael ei dreulio ar waith paratoadol fel rhan o'r broses cynllunio busnes arferol. Ar wahân i hynny, yr unig wariant a wynebwyd gan Lywodraeth y Cynulliad yw'r gwariant hwnnw yn ymwneud â thasglu'r ewro yng Nghymru a sefydlwyd i helpu busnesau Cymru i baratoi ar gyfer cyflwyno'r ewro. Yr oedd y gwariant hwnnw oddeutu £64,000.

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Ddiwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon

### Oriel Gelf Genedlaethol i Gymru

**Nick Bourne:** Mewn perthynas â datganiad y Gweinidog yn y Cyfarfod Llawn ar 5 Mai 2004 fod Llafur yn ymrwymedig i Oriel Gelf Genedlaethol benodol i Gymru, a wnaiff y Gweinidog amlinellu ei fwriadau ef a bwriadau Llywodraeth Cynulliad Cymru mewn perthynas â hi? (WAQ35352)

**Y Gweinidog dros Ddiwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon (Alun Pugh):** Yr oedd fy ateb ichi yn y Cyfarfod Llawn ar 5 Mai yn ei gwneud yn glir fod Llywodraeth y Cynulliad wedi ymrwymo i roi ystyriaeth ofalus i'r addewid yn 'Cymru: Gwlad Well' i archwilio'r potensial ar gyfer oriel genedlaethol newydd i gelfyddyd Gymreig. Yn amlwg, wrth symud y mater hwn yn ei flaen, bydd angen i Lywodraeth y Cynulliad archwilio'r holl opsiynau, amserlenni ac ystyriaethau yn ymwneud ag adnoddau sy'n berthnasol.

## Oriel Gelf Genedlaethol Benodol i Gymru

**Nick Bourne:** A wnaiff y Gweinidog roi amserlen ar gyfer sefydlu oriel gelf genedlaethol benodol i Gymru, yn dilyn ei ddatganiad wrth ateb cwestiynau yn y Cyfarfod Llawn ar 5 Mai 2004? (WAQ35353)

**Alun Pugh:** Mae hwn yn ymarferiad sylweddol gyda goblygiadau mawr o ran cyfalaf a refeniw. Bydd Llywodraeth y Cynulliad yn penderfynu ar y ffordd ymlaen ar ôl ystyried yr opsiynau yn drylwyr Nid Amgueddfeydd ac Orielau Cenedlaethol Cymru yn unig fydd â rhan yn y gwaith o weithredu ynglŷn â'r mater hwn—bydd Cyngor Celfyddydau Cymru, Llyfrgell Genedlaethol Cymru a chyrff cyfrannog eraill hefyd yn cael eu cynnwys.

## Canolfan Mileniwm Cymru

**Glyn Davies:** A wnaiff y Gweinidog restru ffynonellau'r llechi a'r pren a ddefnyddiwyd wrth adeiladu Canolfan Mileniwm Cymru? (WAQ35371)

**Alun Pugh:** Llechi o Gymru yw'r llechi sy'n cael eu defnyddio ar waliau allanol adeiladau Canolfan Mileniwm Cymru. Mae'n dod o dair chwarel: Blaenau Ffestiniog, Machynlleth a Bethesda. Prennau caled o Gymru yw'r prennau caled ar y balconïau sy'n amgylchynu'r prif ymgynullfannau cyhoeddus, tra bo balconïau'r awditoriwm yn gyfuniad o brennau caled o Gymru ac argaenau o ffynonellau Ewropeaidd. Pren pyrwydd o ffynonellau Ewropeaidd, Norwy gan mwyaf, yw'r cladin pren y tu allan i'r adeilad.

## Dodrefn ar gyfer Gweithio Gartref

**Nick Bourne:** A wnaiff y Gweinidog ddweud a yw'r cyrff cyhoeddus a noddir gan y Cynulliad y mae ef yn gyfrifol amdanynt yn darparu dodrefn er mwyn hwyluso gweithio gartref? (WAQ35697)

**Alun Pugh:** Fe'ch cyfeiriaf at yr ateb i WAQ35690.

## Hanes Paffio yng Nghymru

**Leighton Andrews:** A wnaiff y Gweinidog ddatgan a yw ei adran yn cefnogi unrhyw fentrau sy'n ymwneud â hanes paffio yng Nghymru? (WAQ35710)

**Alun Pugh:** Mae oriel anfarwolion chwaraeon Cymru yn Amgueddfa Werin Cymru, Sain Ffagan, yn cynnwys casgliad rhagorol o ddeunyddiau yn ymwneud â phaffio, gan gynnwys gwregys Lonsdale. Yn ogystal, mae Amgueddfa Castell Cyfarthfa, Merthyr Tudful, yn cynnwys eitemau'n ymwneud â phaffio, yn enwedig eitemau sy'n gysylltiedig â Johnny Owen.

## Mentrau Digideiddio

**Leighton Andrews:** Pa fentrau digideiddio sy'n cael eu cefnogi gan adran y Gweinidog? (WAQ35715)

**Alun Pugh:** Nod menter llyfrgell ddigidol Llyfrgell Genedlaethol Cymru yw sicrhau bod ei chasgliadau ar gael ar draws y byd ar y rhyngrwyd. Ei phwrpas yw cynyddu'r ddarpariaeth yn y llyfrgell, gwella ei gwasanaethau a'i chasgliadau, a gwybodaeth am y casgliadau hynny, a chynyddu'r defnydd ohonynt, a sicrhau bod gwybodaeth electronig am Gymru yn cael ei chasglu a'i chadw a'i bod ar gael.

Mae Amgueddfeydd ac Orielau Cenedlaethol Cymru wedi ymwneud â nifer o brosiectau i ddigideiddio eu casgliadau. Caiff delweddau digidol eu cynnwys yn y gronfa ddata ar-lein am y casgliad celf, ac mae'r gwaith o ddigideiddio'r llyfrau braslunio o fewn y casgliad wedi dechrau. Mae gwaith yn mynd rhagddo ar hyn o bryd i ddigideiddio'r casgliadau o fapiau hynafiaethol topograffig a daearegol, ac i gynhyrchu adnodd ffotograffig ar-lein o ddelweddau mwynol. Bydd Amgueddfeydd ac Orielau Cenedlaethol Cymru yn digideiddio eu darluniau botanegol yn y dyfodol agos iawn.

Yn ogystal, mae Culturenet Cymru yn hyrwyddo diwylliant a threftadaeth Cymru ar-lein. Mae prosiect Casglu'r Tlysau yn cynnwys dros 20,000 o ddelweddau wedi'u digideiddio o eitemau o arwyddocâd diwylliannol i Gymru, tra bo Llyfrau o'r Gorffennol yn gasgliad ar-lein o lyfrau o ddiddordeb diwylliannol cenedlaethol, sydd wedi bod allan o brint ers amser maith ac nad ydynt yn debygol o gael eu hailargraffu.

### Yr Iaith Gymraeg

**Owen John Thomas:** A wnaiff y Gweinidog amlinellu ei gyfrifoldebau, cyfan a rhannol, ynghylch yr iaith Gymraeg? (WAQ35716) [W]

**Y Gweinidog dros Ddiwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon (Alun Pugh):** Yr wyf yn gyfrifol am arwain polisi yn y maes hwn. Mae hynny'n cynnwys darparu nawdd i Fwrdd yr Iaith Gymraeg, cynllun iaith Gymraeg Llywodraeth y Cynulliad a rhoi 'Iaith Pawb' ar waith.

Mae'r Gymraeg, fel maes trawsbynciol, yn gyfrifoldeb hefyd i'm cyd-aelodau o'r Cabinet a'u portffolios.

### Cynllun Casglu Cyngor Celfyddydau Cymru

**Janice Gregory:** Sawl un o'r orielau sy'n cymryd rhan yng nghynllun casglu Cyngor Celfyddydau Cymru sydd wedi'u lleoli ym mwrdeistrefi sirol Pen-y-bont a Rhondda Cynon Taf? (WAQ35749)

**Alun Pugh:** Mae dwy: yn y Tŷ Model yn Llantrisant ac Oriel Dreftadaeth y Rhondda yn Nhrehafod.

### Cynllun Casglu (Dewis Orielau)

**Janice Gregory:** Sut y mae Cyngor Celfyddydau Cymru yn mynd ati i ddewis orielau ar gyfer cymryd rhan yn ei gynllun casglu? (WAQ35755)

**Alun Pugh:** Mae orielau'n gwneud cais i ymuno â'r cynllun. Maent yn llenwi ffurflen gais a chaiff y ceisiadau eu hasesu gan swyddogion cyngor y celfyddydau neu gan aelod oddi ar restr genedlaethol y cyngor o gynghorwyr yn erbyn y meini prawf canlynol:

- rhaid i arddangos a gwerthu gwaith celf a/neu grefft gwreiddiol fod yn gyfran sylweddol o fusnes yr oriel a rhaid i raglen yr oriel gynnwys nifer sylweddol o arddangosfeydd o waith gan amrywiaeth o artistiaid a chrefftwyr proffesiynol;
- rhaid i'r oriel gadw ac arddangos cyfran uchel o weithiau celf a chrefft gwreiddiol;
- rhaid i'r oriel weithredu'n broffesiynol o ran ei marchnata a'i strategaeth er mwyn annog gwerthiant, sicrhau bod staff ar gael i siarad am y gwaith sy'n cael ei arddangos ac i werthu'r gwaith, a chyflwyno arddangosfeydd mewn modd proffesiynol;
- rhaid i'r oriel wneud pob ymdrech i ganiatáu mynediad i bobl anabl i'r mannau arddangos;
- rhaid i'r oriel ymrwymo i drefniadau priodol gyda'r artistiaid a'r crefftwyr sy'n arddangos eu gwaith a sicrhau bod yr arian o'r gwerthiannau yn cael ei dalu'n brydlon.

Ar ôl iddynt gael eu cymeradwyo i fod yn aelodau o'r cynllun, rhaid i orielau wedyn wneud cais i'r Swyddfa Masnachu Teg a chael trwydded gredyd cyn y gallant frocera gwerthiannau drwy'r cynllun casglu.

### Cynllun Casglu (Dewis Artistiaid)

**Janice Gregory:** Sut y mae Cyngor Celfyddydau Cymru yn mynd ati i ddewis artistiaid ar gyfer cymryd rhan yn ei gynllun casglu? (WAQ35756)

**Alun Pugh:** Nid yw cyngor y celfyddydau yn dewis artistiaid y gellir gwerthu eu gwaith drwy'r cynllun casglu. Mae'r cynllun yn gymorth i brynu gwaith gwreiddiol ac argraffiadau cyfyngedig (cyfres fer) gan artistiaid a chrefftwyr cyfoes.

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth

### Rheilfyrdd Caerdydd a'r Cymoedd

**Owen John Thomas:** Pa gamau y mae'r Gweinidog wedi'u cymryd i wella'r gwasanaeth ar reilffyrdd Caerdydd a'r Cymoedd? (WAQ35281)

**Y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth (Andrew Davies):** Mae'r Awdurdod Rheilffyrdd Strategol wedi ariannu nifer o welliannau i'r gwasanaethau trên ar reilffyrdd y Cymoedd, er enghraifft, y gwasanaeth bob hanner awr am y rhan fwyaf o'r dydd ar reilffordd Aberdâr a gyflwynwyd y llynedd o dan gynllun ariannu'r Bartneriaeth Teithwyr Trenau. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi rhoi cymorth ar ffurf grant trafnidiaeth, er enghraifft, i'r ddolen basio yn Aberpennar ac ymestyn hyd gorsafoedd ar lein Aberdâr, ac i raglen gwelliannau rheilffyrdd strategol consortiwm yr awdurdodau lleol. Yr ydym yn trafod cymorth tuag at raglen y dyfodol gyda Chynghrair Trafnidiaeth De-ddwyrain Cymru a Threnau Arriva Cymru.

### Grant Buddsoddi'r Cynulliad

**Irene James:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar hynt grant buddsoddi'r Cynulliad ers ei lansio yn 2002? (WAQ35285)

**Andrew Davies:** Mae'r niferoedd sydd wedi manteisio ar y grant ar draws Cymru y tu hwnt i'n holl ddisgwyliadau. Mae dros 940 o gynigion wedi cael eu gwneud hyd yma, gwerth bron i £30 miliwn. Disgwylir i'r prosiectau hyn ddenu dros £85 miliwn o fuddsoddiad o'r sector preifat a dylent hefyd greu ymhell dros 2,000 o swyddi newydd.

Yn Islwyn, mae 40 o gynigion wedi cael eu gwneud, gwerth £1.2 miliwn gyda'i gilydd. Disgwylir i'r prosiectau hyn ddenu bron i £3 miliwn o fuddsoddiad o'r sector preifat a dylent hefyd greu dros 90 o swyddi newydd.

Yr oedd yr adolygiad o'r cynllun yn ddiweddar yn gadarnhaol iawn, gan adlewyrchu ei hyblygrwydd a'i hygyrchedd. Gyda rhai newidiadau cymharol fach i'w gwella a'u caboli, bydd grantiau buddsoddi'r Cynulliad yn parhau i weithredu ar y patrwm presennol ledled Cymru gyfan, yn cynnig grantiau o rhwng £5,001 a £50,000 i fusnesau bach a chanolig sydd am fuddsoddi yn eu busnesau.

### Datblygu Economaidd yng Nghasnewydd

**John Griffiths:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar ddatblygu economaidd yng Nghasnewydd? (WAQ35287)

**Andrew Davies:** Fe'ch cyfeiriaf at yr ateb a roddwyd i WAQ34845.

**Strategaeth Dwristiaeth Llywodraeth y Cynulliad**

**Tamsin Dunwoody-Kneafsey:** A wnaiff y Gweinidog roi'r newyddion diweddaraf am hynt strategaeth dwristiaeth Llywodraeth y Cynulliad, 'Cyflawni ein Potensial'? (WAQ35288)

**Andrew Davies:** Strategaeth a ddatblygwyd gan Fwrdd Croeso Cymru ar ôl ymgynghori'n agos â'r diwydiant twristiaeth yw 'Cyflawni ein Potensial'. Cafodd ei chymeradwyo i'r diwydiant gan y Prif Weinidog ym mis Ebrill 2000.

Bydd Bwrdd Croeso Cymru yn cynnal adolygiad canol tymor o 'Cyflawni ein Potensial' a fydd yn golygu cyhoeddi dogfen ymgynghori a chyfres o seminarau yn ystod 2004. Mae papur adolygu terfynol i fod i gael ei gwblhau erbyn mis Mawrth 2005.

**Cyswllt Rheilffordd rhwng Casnewydd a Glynebwy**

**William Graham:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar hynt y cyswllt rheilffordd rhwng Casnewydd a Glynebwy? (WAQ35290)

**Andrew Davies:** Y cynllun ar hyn o bryd yw darparu gwasanaeth i deithwyr rhwng Parkway yng Nglynebwy a Chaerdydd erbyn haf 2006 a gwasanaeth rhwng Parkway yng Nglynebwy a Chasnewydd erbyn 2009, neu'n gynharach os bydd hynny'n bosibl.

**Cyfraniad Addysg Uwch**

**John Griffiths:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar hynt y gwaith o ddatblygu ymhellach gyfraniad addysg uwch yng Nghymru at Ddatblygu Economaidd yng Nghymru? (WAQ35294)

**Andrew Davies:** Cafodd y grŵp gorchwyl a gorffen addysg uwch a datblygu economaidd o dan arweiniad y Cynulliad ei sefydlu er mwyn archwilio sut y gall y sector addysg uwch gyfrannu rhagor eto at ddatblygu'r economi wybodaeth. Mae adroddiad terfynol y grŵp yn cael ei ystyried gan y Cabinet ar hyn o bryd.

**Cynnydd yng Nghyfradd Sylfaenol Banc Lloegr**

**Nick Bourne:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar effaith y cynnydd yng nghyfradd sylfaenol Banc Lloegr ar Economi Cymru? (WAQ35351)

**Andrew Davies:** Mae amodau macro-economaidd sefydlog wedi cyfrannu'n sylweddol at berfformiad cryf yr economi yng Nghymru yn ddiweddar, fel y mae'r data rhagorol am y farchnad lafur yn dangos. Mae newidiadau priodol ac amserol yn y cyfraddau llog yn chwarae rôl allweddol wrth sicrhau'r sefydlogrwydd macro-economaidd y mae Cymru wedi elwa cymaint arno.

**Afon Rheidol**

**Nick Bourne:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y peryglon i'r A44 ger Gelli Angharad, Aberystwyth oherwydd bod afon Rheidol yn torri i mewn i'r tir? (WAQ35361)

**Andrew Davies:** Er bod y llifogydd yn gallu bod yn helaeth yma a'u bod yn dod cyn belled â therfyn y ffordd ac ymhellach, bach iawn yw'r perygl ar hyn o bryd y ceir llifogydd ar y ffordd ei hun. Serch hynny, bydd fy swyddogion yn sefydlu ymchwiliad o fewn y flwyddyn ariannol gyfredol, i benderfynu a oes yma broblem ar gyfer y tymor hwy ai peidio.

## Y Rheilffordd rhwng Aberystwyth a Chapel Bangor

**Nick Bourne:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ynglŷn â'r peryglon i'r rheilffordd rhwng Aberystwyth a Chapel Bangor oherwydd bod afon Rheidol yn torri i mewn i'r tir? (WAQ35362)

**Andrew Davies:** Dywed Network Rail nad yw afon Rheidol yn peri pryder o safbwynt y brif lein o Aberystwyth drwy'r Borth. O ran rheilffordd Cwm Rheidol, sydd mewn dwylo preifat ac yn rhedeg o Aberystwyth i Gapel Bangor, mae Asiantaeth yr Amgylchedd yn ymwybodol o symudiadau naturiol yng nghwrs yr afon, na thybir eu bod yn fygythiad ar hyn o bryd.

## Gwaith Ffordd ar yr A44 (ger Ponterwyd, Ceredigion)

**Nick Bourne:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y gwaith ffordd ar yr A44 ger Ponterwyd yng Ngheredigion? (WAQ35365)

**Andrew Davies:** Cafodd y ffens ddiogelwch a'r cynheiliaid ar hyd yr ymyl gerllaw Troadau Erwyd Cottage eu difrodi ar ôl i gerbyd nwyddau trymion daro yn eu herbyn. Mae ein hasiantau cynnal a chadw yn llunio cynllun i atgyweirio'r difrod ac, ar yr amod y llwyddir i brynu'r tir angenrheidiol, yr ydym yn disgwyl gwneud y gwaith o fewn y flwyddyn ariannol gyfredol. Nid yw'n bosibl rhoi dyddiad eto ar gyfer dechrau'r gwaith.

## Gwaith Ffordd ar yr A44 (Eisteddfa Gurig, Ceredigion)

**Nick Bourne:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y gwaith ffordd ar yr A44 ger Eisteddfa Gurig yng Ngheredigion? (WAQ35366)

**Andrew Davies:** Cafodd pen uchaf wal y ffos ym Mhont Nant Lladron ei difrodi ar ôl i gerbyd daro yn ei herbyn. Wrth archwilio'r safle wedi hynny gwelwyd bod angen gwneud rhywfaint o waith ar y ffos o dan y ffordd hefyd. Codwyd goleuadau traffig am resymau diogelwch. Mae'r gwaith wedi cael ei gwblhau'n ddiweddar.

## Cymru fel Lleoliad i Dwristiaid

**Nick Bourne:** Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael â Bwrdd Croeso Cymru ynghylch hyrwyddo Cymru fel lleoliad i dwristiaid tramor yn dilyn cyfarfod ei Brif Weithredwr yn Llundain ar 6 Mai? (WAQ35372)

**Andrew Davies:** Byddaf yn trafod y cyfarfod y tro nesaf y byddaf yn cwrdd â chadeirydd a phrif weithredwr Bwrdd Croeso Cymru ar 17 Mai.

## Seilwaith Trafnidiaeth

**Nick Bourne:** A wnaiff y Gweinidog roi'r newyddion diweddaraf am bolisïau'r llywodraeth i wella ein seilwaith trafnidiaeth? (WAQ35425)

**Andrew Davies:** Mae polisïau trafnidiaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi cael eu nodi yn 'Fframwaith Trafnidiaeth Cymru', a gyhoeddwyd yn 2001. Yr wyf wrthi ar hyn o bryd yn adolygu'r polisïau hyn a'u rhaglenni cysylltiol i sicrhau eu bod yn cyd-fynd yn llwyr â 'Cymru: Gwlad Well' a'r cynllun gofodol sy'n cael ei ddatblygu. Rhoddais adroddiad cynnydd llawn i'r Pwyllgor Datblygu Economaidd a Thrafnidiaeth ar 1 Ebrill.

## Targedau Creu Swyddi

**Ann Jones:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar hynt y broses o gyrraedd y targedau creu swyddi a nodwyd yn 'Cymru'n Ennill'? (WAQ35428)

**Andrew Davies:** Dengys yr Arolwg o'r Llafurlu am y pedwar chwarter yn gorffen fis Chwefror 2004 y bu cynnydd net o 87,000 yn ystod 2001 mewn cyflogaeth drwyddi draw. Y targed yw 175,000 erbyn 2010. Bu cynnydd net hefyd o 10,000 yn ystod 2001 mewn cyflogaeth yng ngwasanaethau ariannol a busnes. Y targed yw 20,000 erbyn 2010.

## Safle Island Farm ger Pen-y-bont ar Ogwr

**Alun Cairns:** Faint o arian y mae'r WDA wedi ei wario yn datblygu safle Island Farm ger Pen-y-bont ar Ogwr? (WAQ35560)

**Andrew Davies:** Talwyd grant adennill tir Awdurdod Datblygu Cymru o £1.92 miliwn i'r hen Gyngor Sir Morgannwg Ganol yn y 1990au cynnar ar gyfer caffael, ymchwilio, dymchwel a chlirio'r safle. Wedi hynny, gwariodd adran datblygu/adeiladu ranbarthol yr awdurdod £87,000 ar astudiaeth ddichonoldeb yn ymwneud ag ehangu'r parc gwyddoniaeth.

## Arian a Wariwyd ar Safle Island Farm

**Alun Cairns:** Pa gynlluniau sydd gan Awdurdod Datblygu Cymru i adfachu'r arian a wariwyd ar safle Island Farm, yn sgîl y cynlluniau datblygu sydd ar y gweill ar gyfer tai a chyfleusterau hamdden? (WAQ35561)

**Andrew Davies:** Bydd Awdurdod Datblygu Cymru yn adfachu grant oddi wrth yr awdurdod olynu, Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, yn unol ag amodau'r grant. Mae'r amodau'r grant yn cynnwys darpariaeth i adennill yr ôl-werth pe bai'r safle'n cael ei ddatblygu, waeth at ba ddefnydd.

## Datblygiad a Fwriadwyd ar Island Farm

**Alun Cairns:** Faint y mae'r WDA yn disgwyl ei adfachu yn dilyn y penderfyniad i newid defnydd y cynlluniau datblygu ar Island Farm, ger Pen-y-bont ar Ogwr, o'r parc busnes a fwriadwyd yn wreiddiol? (WAQ35562)

**Andrew Davies:** Mae trafodaethau gyda'r asiantau sy'n gweithredu ar ran y cyngor wedi casglu fod swm o £1.96 miliwn yn ddyledus i'r awdurdod o ganlyniad i'r gwerthiant arfaethedig. O dan amgylchiadau felly, lle bo'r defnydd arfaethedig yn newid ar ôl dyfarnu grant, rhaid ymgynghori ag Awdurdod Datblygu Cymru ynghylch y cynigion. Ymgynghorwyd ag ef yn yr achos hwn, ac mae'r swm o £1.96 miliwn y cytunwyd arno yn adlewyrchu'r defnydd arfaethedig.

## Cynlluniau Llwybrau Diogel i'r Ysgol yn Sir y Fflint

**Sandy Mewies:** Mewn perthynas â WAQ35071, faint o gyllid sydd wedi'i ddyrannu hyd yn hyn ar gyfer cynlluniau llwybrau diogel i'r ysgol yn sir y Fflint? (WAQ35676)

**Andrew Davies:** Er 1999, mae Llywodraeth y Cynulliad wedi dyrannu £1,070,000 i Gyngor Sir y Fflint ar gyfer ei gynllun llwybrau diogel i'r ysgol.

## Cyllid ar gyfer Llwybrau Diogel i'r Ysgol

**Sandy Mewies:** Mewn perthynas â WAQ35071, all y Gweinidog ddarparu rhestr o'r cynlluniau a'r ysgolion hynny yn sir y Fflint sydd wedi derbyn cyllid ar gyfer llwybrau diogel i'r ysgol? (WAQ35689)

**Andrew Davies:** Mae cyllid ar gyfer y cynllun llwybrau diogel i'r ysgol yn sir y Fflint wedi cael ei ddyrannu'n uniongyrchol i'r awdurdod lleol. Gwnaethpwyd gwaith adeileddol, neu mae yn y broses o gael ei wneud, yn yr ysgolion canlynol:

**Ardal Cei Connah**
Ysgol Gynradd Golftyn
Ysgol Gynradd Wepre
Ysgol Gynradd Bryn Deva
Ysgol Fabanod Dee Road
Ysgol Iau Custom House Lane
Ysgol Uwchradd Cei Connah

**Ardal Shotton**
Yr Hybarch Edward Morgan
Ysgol Iau Taliesin
Ysgol Gatholig Rufeinig St Ethelwolds
Ysgol Fabanod Shotton
Ysgol Uwchradd John Summers
Ysgol Gynradd Sealand
Ysgol Gynradd Queensferry

**Ardal yr Wyddgrug**
Ysgol Gynradd Bryn Coch
Ysgol Gynradd St David's
Ysgol Gynradd Bryn Gwalia
Ysgol Gynradd Glanrafon
Ysgol Arbennig Bryn Glas
Ysgol Arbennig Delyn
Ysgol Uwchradd Alun, yr Wyddgrug
Ysgol Uwchradd Maes Garmon

**Ardal Bwcle**
Ysgol Gynradd Drury
Ysgol Uwchradd Elfred
Ysgol Gynradd Mountain Lane
Ysgol Gynradd Southdown
Ysgol Gynradd Westwood
Ysgol Gynradd Pentrobin
Ysgol Gynradd Ewloe Green
Ysgol Arbennig Belmont

**Ardal Mynydd Isa**
Ysgol Iau y Bryn
Ysgol Fabanod Wat's Dyke
Ysgol Uwchradd Argoed

**Ardal Brychdwn**
Ysgol Fabanod Brychdwn
Ysgol Iau Brychdwn

**Ardal Penarlâg**
Ysgol Fabanod Penarlâg
Ysgol Iau Rector Drew (Ysgol Wirfoddol a Gynorthwyir)
Ysgol Gynradd Penarlâg
Ysgol Gynradd Sandycroft
Ysgol Uwchradd Penarlâg

**Ardal Saltney**
Ysgol Gynradd Saltney Ferry
Ysgol Gynradd Wood Memorial
Ysgol Gynradd Gatholig Rufeinig St Anthony's
Ysgol Uwchradd St David's

**Ardal Treffynnon**
Ysgol Uwchradd Treffynnon
Ysgol Iau y Fron
Ysgol Fabanod Perth y Terfyn
Ysgol Gatholig Rufeinig St Winefride's
Ysgol Gynradd Gwenffrwd
Ysgol Gynradd Maes Glas, Greenfield
Ysgol Gynradd Bro Carmel
Canolfan Gymorth Llwyn Onn (Ysgol Arbennig)

**Ardal y Fflint**
Ysgol Gynradd Gatholig Rufeinig St Mary's
Ysgol Gynradd Cornist Park
Ysgol Uwchradd y Fflint
Ysgol Uwchradd Gatholig Rufeinig St Richard Gwyn
Ysgol Croes Atti
Ysgol Gynradd Gwynedd
Ysgol Gynradd Maes Edwin, Mynydd y Fflint

**Ardal Bagillt**
Ysgol Gynradd Merllyn
Ysgol Glan Aber

**Ardal yr Hob**
Ysgol Gynradd Gymunedol Abermorddu
Ysgol Gynradd Estyn, yr Hob
Ysgol Uwchradd Castell Alun, yr Hob
St John the Baptist VP, Penymynydd
Ysgol Iau Penyffordd
Ysgol Fabanod Abbot's Lane, Penyffordd
Ysgol Gynradd Derwen, Higher Kinnerton
Ysgol Gynradd Llanfynydd
Ysgol Terrig, Treuddyn
Ysgol Gynradd Parc y Llan, Treuddyn
Ysgol Gynradd Derwenfa, Coed-llai

## Dodrefn ar gyfer Gweithio Gartref

**Nick Bourne:** A wnaiff y Gweinidog ddweud a yw'r cyrff cyhoeddus a noddir gan y Cynulliad y mae ef yn gyfrifol amdanynt yn darparu dodrefn er mwyn hwyluso gweithio gartref? (WAQ35694)

**Andrew Davies:** Fe'ch cyfeiriaf at yr ateb i WAQ35690.

**Cwmni Grundig**

**Lisa Francis:** A gynigiwyd cymhellion ariannol i gwmni Grundig, Llantrisant, gan Lywodraeth y Cynulliad neu gan unrhyw un o'i CCNC neu ei asiantaethau, i sefydlu busnes yn y De? (WAQ35713)

**Andrew Davies: Sefydlwyd** ffatri Grundig, fel yr oedd ar y pryd, cyn dechrau Llywodraeth Cynulliad Cymru. Deallaf i'r prif gymorth ariannol gael ei gynnig gan y Swyddfa Gymreig ac Awdurdod Datblygu Cymru.

- 1994 (y Swyddfa Gymreig)—cymorth rhanbarthol dewisol o £1.4 miliwn i sefydlu'r cyfleuster yn Llantrisant;
- 1998 (y Swyddfa Gymreig)—cymorth rhanbarthol dewisol o £750,000 i gyflwyno'r gwaith o gynhyrchu blychau lloeren digidol i'w rhoi ar ben setiau teledu;
- 1999 (WDA)—grant datblygu eiddo o £130,000.

Ym mis Mehefin 2002, cafodd Grundig yn Llantrisant ei brynu gan gwmni o Ffrainc, Thomson Multi Medi Inc.

**Datblygu Cynnwys Digidol**

**Leighton Andrews:** Pa fentrau sydd gan y Gweinidog ar y gweill i symbylu datblygiad cynnwys digidol yng Nghymru? (WAQ35714)

**Andrew Davies:** Mae nifer o fentrau gan y Llywodraeth i symbylu neu gefnogi creu cynnwys digidol, gan gynnwys cymorth datblygu busnes yn y canolfannau technium digidol yn Abertawe a Phen-y-bont ar Ogwr a Menter Cyfryngau Digidol @Wales yng Nghaerdydd, creu cynnwys addysgol ar gyfer ysgolion o fewn Grid Cenedlaethol Cymru ar gyfer Dysgu, a chynnwys diwylliannol ar gyfer prosiect Casglu'r Tlysau yn y Llyfrgell Genedlaethol. Mae'r posibilrwydd o ganolfannau technium cyfryngau i roi cymorth yn benodol i fusnesau sy'n creu cynnwys, cymwysiadau a gwasanaethau yn cael ei ystyried gan y WDA. Yr wyf hefyd yn disgwyl i'r adolygiad o'r diwydiannau creadigol helpu i nodi camau perthnasol a allai fod yn ofynnol er mwyn helpu i symbylu datblygiad y sector pwysig hwn.

**Ad-drefnu o fewn Awdurdod Datblygu Cymru**

**Alun Cairns:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar yr ad-drefnu o fewn y WDA? (WAQ35720)

**Andrew Davies:** Mae'r WDA yn cynnal ymarferiad datblygu a dylunio er mwyn archwilio ei strwythur sefydliadol. Disgwylir ffrwyth yr ymarferiad yn fuan.

**Penodiadau Rheoli Uwch Diweddar o fewn y WDA**

**Alun Cairns:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar benodiadau rheoli uwch diweddar o fewn y WDA? (WAQ35721)

**Andrew Davies:** Mater i'r prif weithredwr yw penodiadau staff Awdurdod Datblygu Cymru. Yn unol â datganiad rheoli'r awdurdod, y prif weithredwr sy'n gyfrifol am recriwtio, cadw a symbylu'r holl staff.

**Rhaglenni Cyfalaf**

**Alun Cairns:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y newidiadau i wariant a strategaeth arfaethedig rhaglenni cyfalaf? (WAQ35723)

**Andrew Davies:** Nodwyd fy nghynlluniau gwario yng nghyllideb atodol y Cynulliad ym mis Mawrth 2004. Caiff unrhyw newidiadau eu hadrodd i'r Gweinidog Cyllid ar ôl ymgynghori â'r Pwyllgor Datblygu Economaidd a Thrafnidiaeth fel a nodir yn Rheol Sefydlog Rhif 21.

## Technoleg ac Arloesedd

**Alun Cairns:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y newidiadau i wariant a strategaeth arfaethedig technoleg ac arloesedd? (WAQ35724)

**Andrew Davies:** Mae gweithgareddau technoleg ac arloesedd yn cael eu symud ymlaen yn unol â'r blaenoriaethau a amlygwyd yn 'Cymru o Blaid Arloesi', cynllun gweithredu Llywodraeth y Cynulliad ar gyfer arloesi a gyhoeddwyd gennyf yn 2003.

## Rhaglen Canolfannau Technium

**Alun Cairns:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y newidiadau i wariant a strategaeth arfaethedig y rhaglen canolfannau technium? (WAQ35725)

**Andrew Davies:** Mae Awdurdod Datblygu Cymru yn adolygu cyfeiriad y rhaglen i'r dyfodol er mwyn sicrhau bod y camau newydd yn parhau â'r cynnydd rhagorol sydd wedi ei wneud yn barod.

## Maes Awyr y Llwyn Helyg, Sir Benfro

**Nick Bourne:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar ddyfodol maes awyr y Llwyn Helyg, sir Benfro? (WAQ35733)

**Andrew Davies:** Cyngor Sir Penfro yw perchenog a gweithredwr maes awyr y Llwyn Helyg ger Hwlffordd. Ar hyn o bryd mae'r cyngor yn gweithio ar gynllun datblygu pum mlynedd fydd yn gwella'r cyfleusterau yn sylweddol. Mae'r maes awyr yn ymddangos ar lawer o'r rhwydweithiau posibl o lwybrau a nodwyd gennyf yn fy nogfen ymgynghori yn ddiweddar am wasanaethau awyr rhestredig o fewn Cymru. Yr wyf wrthi ar hyn o bryd yn ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad hwnnw cyn penderfynu ar y ffordd ymlaen o ran y gwasanaethau hyn.

## Grant Buddsoddi'r Cynulliad a Roddwyd i Gwmnïau yn Alun a Glannau Dyfrdwy

**Carl Sargeant:** Hyd yn hyn, sawl grant buddsoddi'r Cynulliad a roddwyd i gwmnïau yn Alun a Glannau Dyfrdwy? (WAQ35750)

**Andrew Davies:** Cyflwynwyd cynllun grant buddsoddi'r Cynulliad ar 1 Ebrill 2002. Ers hynny, mae 38 cynnig o gymorth gwerth £1,232,950 wedi cael eu gwneud i gwmnïau yn ardal etholaeth Alun a Glannau Dyfrdwy. Yr oedd y cynigion hyn i fod i annog buddsoddiad preifat o £4,548,150. Er mai prif ddiben grantiau buddsoddi'r Cynulliad yw symbylu menter, ac nad cynllun yn ymwneud â swyddi ydyw yn bennaf, rhagwelir y bydd y grantiau a ddyfarnwyd yn Alun a Glannau Dyfrdwy yn arwain at greu 87 o swyddi, gyda 278 o swyddi sy'n bodoli'n barod yn cael eu cadw.

## Cymorth Rhanbarthol Dewisol a Ddyrannwyd i Alun a Glannau Dyfrdwy

**Carl Sargeant:** Hyd yn hyn, faint o gymorth rhanbarthol dewisol a ddyrannwyd i Alun a Glannau Dyfrdwy? (WAQ35751)

**Andrew Davies:** Cynllun sy'n ymateb i'r galw yw'r cynllun cymorth rhanbarthol dewisol ac mae'n dibynnu ar cwmnïau yn dod ymlaen gyda chynlluniau buddsoddi cymwys a fydd yn creu neu'n diogelu swyddi yn yr ardaloedd a gynorthwyir. Er 1 Gorffennaf 1999, gwnaethpwyd 60 cynnig o gymorth gwerth £13,703,000 i gwmnïau yn ardal etholaeth Alun a Glannau Dyfrdwy. Yr oedd y cynigion hyn i fod i annog buddsoddiad preifat o £77,016,667 a rhagwelir y bydd hynny'n creu 2,126 o swyddi ac yn diogelu 628 o swyddi sy'n bodoli'n barod.

### Grant Buddsoddi'r Cynulliad a Roddwyd i Gwmnïau yn Nelyn

**Sandy Mewies:** Hyd yn hyn, sawl grant buddsoddi'r Cynulliad a roddwyd i gwmnïau yn Nelyn? (WAQ35752)

**Andrew Davies:** Cyflwynwyd cynllun grant buddsoddi'r Cynulliad ar 1 Ebrill 2002. Ers hynny, mae 11 cynnig o gymorth gwerth £421,000 wedi cael eu gwneud i gwmnïau yn ardal etholaeth Delyn. Yr oedd y cynigion hyn i fod i annog buddsoddiad preifat o £2,660,970. Er mai prif ddiben grantiau buddsoddi'r Cynulliad yw symbylu menter, ac nad yw'n gynllun sy'n ymwneud yn benodol â swyddi, rhagwelir y bydd y grantiau a ddyfarnwyd yn Nelyn yn arwain at greu 25 o swyddi, gyda 35 o swyddi sy'n bodoli'n barod yn cael eu cadw.

### Cymorth Rhanbarthol Dewisol a Ddyrannwyd i Delyn

**Sandy Mewies:** Hyd yn hyn, faint o gymorth rhanbarthol dewisol a ddyrannwyd i Delyn? (WAQ35753)

**Andrew Davies:** Cynllun sy'n ymateb i'r galw yw'r cynllun cymorth rhanbarthol dewisol ac mae'n dibynnu ar i gwmnïau ddod ymlaen gyda chynlluniau buddsoddi cymwys a fydd yn creu neu'n diogelu swyddi yn yr ardaloedd a gynorthwyir. Er 1 Gorffennaf 1999, mae chwe chynnig o gymorth gwerth £1,744,000 wedi cael eu gwneud i gwmnïau yn ardal etholaeth Delyn. Yr oedd y cynigion hyn i fod i annog buddsoddiad preifat o £24,306,000, a rhagwelir y bydd hynny'n creu 160 o swyddi ac yn diogelu 43 o swyddi sy'n bodoli'n barod.

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes

### Ysgol Trecastell ac Ysgol Libanus ym Mhowys

**Nick Bourne:** Pryd y mae'r Gweinidog yn bwriadu gwneud penderfyniad ynghylch dyfodol Ysgol Trecastell ac Ysgol Libanus ym Mhowys? (WAQ35367)

**Y Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes (Jane Davidson):** Mae'r cynigion hyn a gyhoeddwyd gan Gyngor Sir Powys wedi denu gwrthwynebiadau statudol felly fy ngwaith i fydd penderfynu arnynt. Fel arfer, yr wyf yn anelu at gyhoeddi penderfyniad o fewn chwe mis i gyhoeddi'r hysbysiad statudol. Y dyddiad targed o ran penderfynu ar y cynigion hyn yw 5 Awst 2004 ond, gan y byddai hynny adeg gwyliau'r ysgol gobeithiaf gyhoeddi'r penderfyniad cyn diwedd tymor yr haf. Mae'r hysbysiadau yn cynnig y dylai'r ysgolion gau ar 31 Awst 2005. Ni allaf ddweud pa benderfyniad sy'n debygol gan y byddaf yn gwneud fy mhenderfyniad yng ngoleuni'r holl wybodaeth berthnasol.

### Dysgu ac Addysgu Cymru (Cost Gweinyddu)

**Nick Bourne:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ynghylch cost gweinyddu ELWa yn y flwyddyn bresennol, ac ym mhob blwyddyn weithredu ddilynol? (WAQ35369)

**Jane Davidson:** Ar hyn o bryd mae cyllideb y Cynulliad ar gyfer 2004-05 yn gwneud darpariaeth o £22.8 miliwn gogyfer â chostau rhedeg ELWa. Ar ôl cwblhau'r ad-drefnu, disgwylir i gostau rhedeg 2005-06 a 2006-07 ostwng, gyda dyraniadau dangosol o £21.1 miliwn ar gyfer y naill flwyddyn a'r llall. Gallai'r dyraniadau hyn gael eu newid yn ystod yr adolygiad o wariant a chyllideb 2004.

### Cyllid ELWa ar gyfer Colegau a Chyrsiau Addysg Bellach

**Nick Bourne:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar effaith cyllid ELWa ar gyfer colegau a chyrsiau addysg bellach o ystyried y cyhoeddiad y bydd swyddi'n cael eu colli yng Ngholeg Gwent? (WAQ35370)

**Jane Davidson:** Fel a ddywedais yn y Cyfarfod Llawn ar 12 Mai, mae ELWa wedi cynyddu'r arian ar gyfer addysg bellach 4.76 y cant, neu £11 miliwn, rhwng 2003-04 a 2004-05. Yr wyf wedi gofyn i gadeirydd ELWa am adroddiad ddechrau'r wythnos am y sefyllfa yng Ngholeg Gwent, a byddaf yn adrodd i'r Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes am y materion hyn ar 19 Mai.

**Cyllid ELWa ar gyfer Coleg Ceredigion**

**Nick Bourne:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar gyllid ELWa ar gyfer Coleg Ceredigion? (WAQ35374)

**Jane Davidson:** Rhoddwyd tua £3.349 miliwn i Goleg Ceredigion yn 2003-04, sy'n gynnydd o 3.7 y cant o'i gymharu â 2002-03. Yn ogystal, derbyniodd Coleg Ceredigion £114,765 fel ei gyfran o'r £9 miliwn i wella cyflogau staff addysg bellach.

Mae Dysgu ac Addysgu Cymru wedi cynyddu'r arian ar gyfer addysg bellach 4.76 y cant, neu £11 miliwn, rhwng 2003-04 a 2004-05. Bydd y cyngor cenedlaethol yn ystyried cadarnhau'r dyraniadau dros dro i golegau unigol yn ei gyfarfod nesaf ar 27 Mai.

**Dodrefn ar gyfer Gweithio Gartref**

**Nick Bourne:** A wnaiff y Gweinidog ddweud a yw'r cyrff cyhoeddus a noddir gan y Cynulliad y mae hi'n gyfrifol amdanynt yn darparu dodrefn er mwyn hwyluso gweithio gartref? (WAQ35695)

**Jane Davidson:** Fe'ch cyfeiriaf at yr ateb i WAQ35690.

**Cynlluniau Rheoli Asedau**

**Eleanor Burnham:** A yw'r holl awdurdodau addysg lleol wedi cwblhau ac wedi cyflwyno eu cynlluniau rheoli asedau? (WAQ35740)

**Eleanor Burnham:** Beth oedd cyfanswm y costau a bennwyd a oedd wedi cronni yn sgîl y cynlluniau rheoli asedau a gyflwynwyd gan awdurdodau addysg lleol? (WAQ35741)

**Eleanor Burnham:** Pa ganran o'r costau a nodwyd yn y cynlluniau rheoli asedau sy'n faterion o flaenoriaeth yn ymwneud ag iechyd a diogelwch y mae angen cymryd camau adfer brys yn eu cylch (yn ystod cyfnod un disgybl yn yr ysgol)? (WAQ35742)

**Eleanor Burnham:** A yw ymrwymiad Llywodraeth Cynulliad Cymru i sicrhau bod adeiladau ysgol mewn cyflwr digonol erbyn y flwyddyn 2010 yn dal i fod yn darged realistig a chyraeddadwy? (WAQ35743)

**Jane Davidson:** Mae'r cynlluniau rheoli asedau yn deillio o arolygon o gyflwr yr adeiladau sy'n rhan o holl asedau cyfalaf awdurdodau lleol, ar wahân i dai. Eu bwriad yw helpu awdurdodau i nodi blaenoriaethau buddsoddi ac i wneud unrhyw benderfyniadau i resymoli'r ddarpariaeth. Yr oedd disgwyl i awdurdodau fod wedi sefydlu cynlluniau erbyn 1 Ebrill. Nid yw Llywodraeth y Cynulliad wedi derbyn copïau o'r cynlluniau eto. Byddwn yn craffu ar elfennau addysg y cynlluniau ac yn siarad ag awdurdodau lleol am eu bwriadau i fuddsoddi mewn adeiladau ysgolion yng ngoleuni'r wybodaeth yn y cynlluniau.

Yr ydym wedi ymrwymo'n bendant i 2010 fel targed ac wedi addo gwario £560 miliwn yn ystod oes y Cynulliad hwn. Yr ydym wedi cymryd camau sylweddol ymlaen i fynd i'r afael â chyflwr gwael adeiladau ysgolion. Yn y Cyfarfod Llawn ar 12 Mai, cyhoeddais brosiectau fydd yn cael eu cefnogi yn 2005-06 a 2006-07 fel rhan o gam cyntaf y dyraniadau o £9 miliwn gogyfer â phrosiectau mwy o dan raglen y grant gwella adeiladau ysgolion. Yn ogystal, bydd pob awdurdod yn parhau i gael dyraniadau fformiwla blynyddol drwy raglen y grant gwella adeiladau ysgolion a dyraniadau cyfalaf blynyddol drwy'r cyllid cyfalaf cyffredinol neu drefniadau cymeradwyaethau credyd sylfaenol, a bydd £9.5 miliwn

ar gael bob blwyddyn ar gyfer ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir. Yn gyfangwbl, o 2005-06 ymlaen, bydd £139 miliwn y flwyddyn ar gael ar gyfer buddsoddiadau cyfalaf mewn adeiladau ysgolion. Adolygir digonoldeb y cyllid yng ngoleuni'r wybodaeth yn y cynlluniau rheoli asedau a thrwy drafodaethau gydag awdurdodau lleol ac esgobaethol.

### Cymorth Grant a Ddyrannwyd i Awdurdodau Addysg Lleol

**Eleanor Burnham:** Faint o gymorth grant a ddyrannwyd i awdurdodau addysg lleol gan Lywodraeth Cynulliad Cymru rhwng 2002-2005 sydd wedi'i wario mewn gwirionedd gan yr awdurdodau addysg lleol hynny (yn hytrach na chael ei drosglwyddo iddynt)? (WAQ35748)

**Jane Davidson:** Rhoddir arian i awdurdodau lleol ar gyfer adeiladau ysgolion drwy nifer o ffynonellau.

Mae Llywodraeth y Cynulliad yn rhoi arian ar gyfer buddsoddiadau cyfalaf mewn ysgolion drwy gyllid cyfalaf cyffredinol, y gall awdurdodau ei ddefnyddio at unrhyw bwrpas cyfalaf, ynghyd â'r grant gwella adeiladau ysgolion na cheir ei ddefnyddio ond i'r pwrpas hwnnw. Gall awdurdodau lleol hefyd ddefnyddio'r derbyniadau cyfalaf sydd ar gael ac arian arall a godir yn lleol.

Mae'r ddarpariaeth rhwng 2002-05 fel a ganlyn:

| | Cyllid cyfalaf cyffredinol £000oedd | Grant gwella adeiladau ysgolion £000oedd | Cyfansymiau'r flwyddyn £000oedd |
|---|---|---|---|
| 2002-03 | 54,939,000 | 36,475,000 | 91,414,000 |
| 2003-04 | 54,939,000 | 36,725,000 | 91,664,000 |
| 2004-05 | 54,939,000 | 42,725,000 | 97,664,000 |
| Cyfansymiau | 164,817,000 | 115,925,000 | 280,742,000 |

Yr oedd y gwariant alldro yn 2002-03 yn £96.7 miliwn. Nid oes gwybodaeth alldro am 2003-04 ar gael eto.

Mae cyrff llywodraethu ysgolion yn derbyn arian yn eu cyllidebau dirprwyedig gogyfer â chostau atgyweirio a chynnal a chadw. Yr oedd y gwariant at y dibenion hyn yn £29.9 miliwn yn 2002-03. Nid oes gwybodaeth ar gael eto am 2003-04.

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad

### Gwelliannau i ffordd yr A470

**Nick Bourne:** Pa bryd y mae disgwyl i waith ddechrau ar welliannau i ffordd yr A470 rhwng Erwd a Llanfair ym Muallt? (WAQ35333) ***Trosglwyddwyd i'w ateb gan y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth.***

**Y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth (Andrew Davies):** Mae'r gwaith o baratoi'r datganiad amgylcheddol sy'n ofynnol ar gyfer y cynllun bron â chael ei gwblhau. Bydd y cynllun yn ddarostyngedig i weithdrefnau statudol, a fydd yn cynnwys cyhoeddi gorchmynion drafft ac ymchwiliad cyhoeddus posibl. Nid yw'r gwaith yn debygol o ddechrau tan tua diwedd 2005-06.

## Cost Gweithredu Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramor 2000

**Nick Bourne:** Beth fydd cost gweithredu goblygiadau'r Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramor i holl awdurdodau lleol Cymru yn ystod y flwyddyn bresennol, a beth fydd costau arfaethedig y goblygiadau parhaus i holl awdurdodau lleol Cymru mewn blynyddoedd dilynol? (WAQ35363)

**Y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad (Carwyn Jones):** Nid oes gan Lywodraeth y Cynulliad wybodaeth fanwl am beth fydd union gostau gweithredu darpariaethau Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 i bob awdurdod unigol. Fodd bynnag, drwy setliad refeniw llywodraeth leol, yr ydym wedi darparu adnoddau ychwanegol gwerth £2.4 miliwn y flwyddyn ers 2001-02 i'r awdurdodau priffyrdd lleol i gydnabod eu cyfrifoldebau o dan y Ddeddf. Caiff y swm hwn ei ddosrannu rhwng yr awdurdodau ar sail fformiwla y cytunwyd arni gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru. Wrth inni gyflwyno darpariaethau'r Ddeddf fesul tipyn, byddaf, ar y cyd â llywodraeth leol, yn parhau i fonitro digonoldeb yr adnoddau ychwanegol hyn a'r defnydd a wneir ohonynt.

## Prosiectau Ynni ar Raddfa Fawr

**Nick Bourne:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar yr hyn a gyflawnwyd mewn perthynas â throsglwyddo pwerau dros brosiectau ynni ar raddfa fawr o San Steffan i Gynulliad Cymru? (WAQ35364) ***Trosglwyddwyd i'w ateb gan y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth.***

**Andrew Davies:** Mae Llywodraeth y Cynulliad yn rhan o grŵp teiran sydd wrthi ar hyn o bryd yn ystyried ein cais am drosglwyddo'r pwerau sydd wedi'u cynnwys yn adrannau 36 a 37 o Ddeddf Trydan 1989.

Mae'r grŵp yn bwrw ymlaen â'i waith yn dda ac mae wedi cwrdd ar nifer o achlysuron, ac ymwelodd â Gweithrediaeth yr Alban i archwilio'r broses ganiatáu yno. Mae'r grŵp yn gobeithio adrodd i'r Gweinidogion yn ddiweddarach eleni. Mater i Bwyllgor Gweinidogion Cabinet y DU ar Bolisi Datganoli fydd y penderfyniad terfynol ynglŷn â throsglwyddo.

## Pasportau Ceffylau (Amserlen ar gyfer Gweithredu)

**Tamsin Dunwoody-Kneafsey:** A wnaiff y Gweinidog adrodd ar yr amserlen ar gyfer gweithredu pasportau ceffylau yng Nghymru a Lloegr? (WAQ35675)

**Carwyn Jones:** Bwriedir i ddeddfwriaeth a fydd yn ei gwneud yn ofynnol i berchenogion wneud cais am basportau ar gyfer eu holl geffylau ddod i rym yng Nghymru tua diwedd hydref 2004. Fodd bynnag, mae Llywodraeth y DU, Cymru a'r gweinyddiaethau datganoledig eraill wedi cytuno ar 28 Chwefror 2005 fel dyddiad gorfodi cyffredin.

## Trin Gwastraff

**Peter Black:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar drin gwastraff? (WAQ35677)

**Carwyn Jones:** Mae strategaeth wastraff Cymru yn ceisio lleihau gwastraff a chynyddu ailgylchu a chompostio cymaint â phosibl , gan anfon cyn lleied â phosibl i safleoedd tirlenwi a defnyddio cyn lleied â phosibl ar fesurau megis ynni o wastraff. Yr ydym hefyd yn rhoi rheoliadau newydd ar waith sy'n cwmpasu, er enghraifft, wastraff peryglus, gwastraff amaethyddol, deunydd pacio a gwastraff trydanol er mwyn sefydlu fframwaith rheoleiddio sy'n annog gwaredu gwastraff mewn ffyrdd ar wahân i dirlenwi, a'i drin mewn ffyrdd sy'n amddiffyn y cyhoedd a'r amgylchedd yn well. Mae'r dull hwn yn dilyn yr hierarchaeth ar gyfer gwastraff:

- atal cynhyrchu gwastraff
- lleihau faint o wastraff a gynhyrchir i'r eithaf a'r peryglon posibl a allai ddeillio ohono
- ailddefnyddio deunyddiau
- adfer deunyddiau

- adennill ynni
- gwaredu (i safleoedd tirlenwi)

Mae'r dull a nodir yn strategaeth wastraff Cymru yn ceisio cynyddu i'r eithaf y manteision amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd a geir o reoli gwastraff mewn modd mwy cynaliadwy yng Nghymru.

**Lleihau Gwastraff Plastig**

**Peter Black:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar yr hyn sy'n cael ei wneud i leihau gwastraff plastig? (WAQ35678)

**Carwyn Jones:** Daw llawer o wastraff plastig o ddeunyddiau pacio. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn gweithio'n agos gydag Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig ar reoliadau gogyfer ag adennill ac ailgylchu deunyddiau pacio. Mae'r cyfraddau adennill cyffredinol ar gyfer deunyddiau pacio, gan gynnwys plastig, yn 65 y cant ar hyn o bryd. Yr ydym yn gweithio gyda WRAP ac, yng Nghymru, CWMre—Creu Marchnadoedd Cymreig ar gyfer Deunydd Ailgylchu—i ddatblygu marchnadoedd ar gyfer plastig sydd wedi'i ailgylchu.

Bydd rheoliadau newydd ar gyfer gwastraff amaethyddol sy'n adlewyrchu'r gofynion yng nghyfarwyddeb y fframwaith gwastraff a'r gyfarwyddeb tirlenwi yn pennu mesurau i reoli sut y gwaredir gwastraff plastig ar ffermydd, megis deunydd lapio silwair a haenau garddwriaethol. Yr ydym, ar y cyd ag Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig, yn ystyried cynllun ailgylchu cenedlaethol gwirfoddol neu statudol a fyddai'n atal llawer mwy o blastig rhag cael ei waredu mewn safleoedd tirlenwi.

Mae'r gyfarwyddeb ar wastraff trydanol ac electronig yn cael ei thrawsosod i reoliadau ar gyfer Cymru a Lloegr, a bydd yn rhoi mwy o gyfrifoldeb ar gynhyrchwyr i adennill ac ailgylchu offer electronig a thrydanol, gan gynnwys plastig, a'u gwaredu'n ddiogel.

**Bod yn Ystyriol o'r Amgylchedd yng Nghymru**

**John Griffiths:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y camau sy'n cael eu cymryd i newid agweddau pobl o ran bod yn fwy ystyriol o'r amgylchedd yng Nghymru? (WAQ35679)

**Carwyn Jones:** Mae amryw o weithgareddau yn mynd rhagddynt i hyrwyddo ymwybyddiaeth amgylcheddol yng Nghymru. Yn arbennig:

- sefydlwyd Cynllun Craff am Wastraff i hyrwyddo cynhyrchu llai o wastraff, ailddefnyddio ac ailgylchu ymysg pob sector o'r gymuned. Mae'r ymgyrch yn cael ei chyd-drefnu gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Cadw Cymru'n Daclus ac fe'i hariennir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru;
- mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn rhoi cyllid i'r Gymdeithas Genedlaethol dros Aer Glân i ddarparu deunyddiau cyhoeddusrwydd a hyrwyddo i gyd-fynd â'r diwrnod atal sŵn—digwyddiad blynyddol sy'n tynnu sylw at broblemau sŵn ac yn cynnig atebion ymarferol;
- mae'r cod cefn gwlad, sy'n cael ei ddiweddaru ar hyn o bryd, yn amlinellu'r cyfrifoldebau sydd gan bobl pan fyddant yn ymweld â chefn gwlad, a'r brif neges sy'n cael ei chyfleu yw 'parchwch, diogelwch a mwynhewch gefn gwlad';
- cafodd cylchlythyr Cymru am newid yn yr hinsawdd, sy'n rhoi gwybodaeth am ddatblygiadau newid yn yr hinsawdd a'u heffaith ar Gymru a'r DU, ei lansio ym mis Hydref 2003. Mae gwaith ar yr ail rifyn ar y gweill.

## Ansawdd y Dŵr Ymdrochi ar Draethau Poblogaidd

**John Griffiths:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ynghylch ansawdd y dŵr ymdrochi ar draethau poblogaidd yng Nghymru? (WAQ35680)

**Carwyn Jones:** Mae ansawdd y dŵr ymdrochi ar draethau yng Nghymru yn rhagorol ac mae ymysg y gorau yn y DU gyda 77 o'r 78 o ddyfroedd dynodedig yng Nghymru yn cyrraedd safon orfodol y CE yn 2003. Cyrhaeddodd 83 y cant—mwy nag erioed o'r blaen—o ddyfroedd ymdrochi Cymru safon ganllaw lymach y CE, sef safon y faner las, o'i gymharu â llai na chwarter 10 mlynedd yn ôl.

## Mynd i'r Afael â Llygredd yn yr Aer

**Lorraine Barrett:** Pa gamau y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn eu cymryd i fynd i'r afael â llygredd yn yr aer? (WAQ35681)

**Carwyn Jones:** Mae polisïau ansawdd aer Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi'u nodi yn y strategaeth ansawdd aer i Gymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Cyhoeddwyd atodiad i'r strategaeth ym mis Chwefror 2003. Caiff adolygiad o'r strategaeth, a fydd yn ystyried y wybodaeth ddiweddaraf am effeithiau llygredd aer ar iechyd a datblygiadau technegol a pholisi, ei gynnal drwy gydol 2004.

Mae'r strategaeth yn nodi amcanion ar gyfer y naw prif lygrydd aer er mwyn amddiffyn iechyd pobl, a dau amcan er mwyn amddiffyn llystyfiant ac ecosystemau. Y llygryddion aer y mae'r strategaeth yn ymdrin â nhw yw bensen, 1,3-biwtadïen, carbon monocsid, plwm, nitrogen deuocsid, gronynnau ($PM_{10}$), oson, sylffwr deuocsid a hydrocarbonau aromatig polysyclig.

Mae'r gwaith o fonitro ansawdd aer yn dangos ein bod eisoes yn nesau tuag at neu wedi cyrraedd yr amcanion ar gyfer chwech o'r naw llygrydd yng Nghymru, sef bensen, 1,3-biwtadïen, carbon monocsid, plwm, sylffwr deuocsid a hydrocarbonau aromatig polysyclig.

Disgwylir i fesurau lleol i reoli ansawdd aer, gan gynnwys dynodi parthau rheoli ansawdd aer, ostwng lefelau nitrogen deuocsid a gronynnau. Mae disgwyl inni ragori ar yr amcan yng nghyswllt oson mewn rhannau o Gymru. Fodd bynnag, drwy ddefnyddio mesurau y cytunir arnynt yn rhyngwladol y gellir mynd i'r afael â'r llygrydd hwn yn y ffordd fwyaf effeithiol gan fod llygredd ar draws ffiniau yn dylanwadu'n helaeth ar grynodiadau oson ar lefel y ddaear.

Mae deddfwriaeth Ewropeaidd, sy'n dylanwadu ar ansawdd aer, wedi cael ei thrawsosod yng Nghymru. Y prif ffactorau sy'n dylanwadu ar lygredd yn yr aer yw'r gyfarwyddeb sy'n ymdrin â fframwaith ansawdd aer a'i hepil gyfarwyddebau. Yn ogystal, mae sawl cyfarwyddeb yn delio â llygredd diwydiannol, megis y gyfarwyddeb am weithfeydd llosgi mawr a'r gyfarwyddeb ar losgi gwastraff, sydd o fudd i ansawdd aer yng Nghymru.

## Mynd i'r Afael â Thipio Anghyfreithlon

**Lorraine Barrett:** Pa gamau y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn eu cymryd i fynd i'r afael â thipio anghyfreithlon? (WAQ35682)

**Carwyn Jones:** Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi ymrwymo i atal pobl rhag gwaredu sbwriel yn anghyfreithlon. Fel rhan o'r ymrwymiad hwn, mae Llywodraeth y Cynulliad wedi rhoi cyllid ychwanegol ar gyfer ymgyrch 'Targeted Enforcement' Asiantaeth yr Amgylchedd. Mae gan awdurdodau lleol hefyd bwerau newydd o dan adran 55 o Ddeddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol 2003, a ddaeth i rym ar 31 Mawrth 2004, i stopio, chwilio ac atafaelu cerbydau yr amheuir bod a wnelo hwynt â gwaredu gwastraff yn anghyfreithlon, ynghyd â phwerau i fynd i mewn i eiddo a chasglu tystiolaeth am achosion o'r fath. Deallaf fod deddfwriaeth sylfaenol bellach yn cael ei hystyried.

Mae protocol diwygiedig ar dipio anghyfreithlon, gyda'r nod o egluro'r cyfrifoldebau sy'n cael eu rhannu rhwng yr awdurdodau lleol ac Asiantaeth yr Amgylchedd yng Nghymru a Lloegr o ran gwahanol fathau o wastraff sy'n cael ei dipio'n anghyfreithlon, yn cael ei ystyried.

Mae'n bwysig monitro'r sefyllfa'n effeithiol ac, ym mis Ebrill 2004, sefydlodd Asiantaeth yr Amgylchedd, ar ran Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig a chyda chefnogaeth Llywodraeth y Cynulliad, gronfa ddata sy'n dangos nifer yr achosion o dipio anghyfreithlon a'r camau glanhau. Bydd y gronfa ddata yn arf hollbwysig i'n helpu i ddatblygu polisi a chyfeirio adnoddau yn effeithlon.

Mae Llywodraeth y Cynulliad hefyd yn cefnogi gwaith cymunedol Cadw Cymru'n Daclus ynghyd â'i gwaith i godi ymwybyddiaeth o waredu gwastraff yn anghyfreithlon.

### Rheoliadau Cyfnodau Rhybudd ar gyfer Symud Cerbydau 1986

**Ann Jones:** Mewn perthynas ag ateb y Gweinidog i WAQ32790, pa sylwadau y mae wedi'u derbyn gan gynrychiolwyr y gwasanaeth tân mewn perthynas ag ymgynghoriad Llywodraeth y Cynulliad ar y diwygiadau arfaethedig i Reoliadau Cyfnodau Rhybudd ar gyfer Symud Cerbydau 1986? (WAQ35683)

**Carwyn Jones:** Yr wyf wedi derbyn un ymateb oddi wrth y Gwasanaeth Tân. Mae Gwasanaeth Tân gogledd Cymru'n croesawu'r newidiadau arfaethedig a dywed ei fod yn credu y bydd y cwtogi ar y cyfnodau rhybudd yn llesol. Mae o'r farn y bydd ymdriniaeth gyson ledled Cymru a Lloegr yn ei gwneud yn haws denu pob awdurdodau lleol i gymryd rhan mewn mesurau i frwydro yn erbyn llosgi cerbydau'n fwriadol.

### Rheoliadau Cyfnodau Rhybudd ar gyfer Symud a Gwaredu Cerbydau 1986

**Ann Jones:** Mewn perthynas ag ateb y Gweinidog i WAQ32791, pa gamau sydd wedi'u cymryd o ran trosglwyddo swyddogaethau yn ffurfiol mewn perthynas â Rheoliadau Cyfnodau Rhybudd ar gyfer Symud a Gwaredu Cerbydau 1986? (WAQ35684)

**Carwyn Jones:** Yr wyf wrthi ar hyn o bryd gyda Swyddfa Cymru yn trafod y trefniadau i drosglwyddo'r pwerau hyn ynghyd â throsglwyddo pwerau dros iechyd anifeiliaid a ddylai gael eu cwblhau erbyn diwedd y flwyddyn hon.

### Lefel y Dŵr yn y Ddinas

**Owen John Thomas:** Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael gyda Chyngor Sir Caerdydd ynghylch effaith morglawdd bae Caerdydd ar lefel y dŵr yn y ddinas? (WAQ35685)

**Carwyn Jones:** Dim. Mae cyfrifoldebau Cyngor Sir Caerdydd fel corff olynu i Gorfforaeth Datblygu Bae Caerdydd yn dod o fewn portffolio'r Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth.

### Lleihau'r Perygl o Lifogydd

**David Davies:** Beth y mae'r Gweinidog yn ei wneud i leihau'r perygl o lifogydd yng Nghymru? (WAQ35686)

**Carwyn Jones:** Mater i'r awdurdodau gweithredol dros atal llifogydd yw hyrwyddo mesurau i leihau'r perygl o lifogydd yng Nghymru. Yr wyf yn darparu cymorth ariannol i'r awdurdodau hyn i helpu i hyrwyddo mesurau o'r fath ac, eleni, yr wyf wedi darparu £4 miliwn i awdurdodau lleol a £3.713 miliwn i Asiantaeth yr Amgylchedd i'w galluogi i helpu i hyrwyddo mesurau o'r fath. Yr wyf hefyd yn ystyried symleiddio'r trefniadau presennol o ran darparu gwasanaethau atal llifogydd yng Nghymru a byddaf yn cyhoeddi fy mhenderfyniad yn fuan.

## Tipio Anghyfreithlon

**Laura Anne Jones:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar fater tipio anghyfreithlon? (WAQ35687)

**Carwyn Jones:** Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi ymrwymo i ddileu gwaredu sbwriel yn anghyfreithlon. Fel rhan o'r ymrwymiad hwn, mae Llywodraeth y Cynulliad wedi darparu cyllid ychwanegol ar gyfer ymgyrch 'Targeted Enforcement' Asiantaeth yr Amgylchedd. Mae awdurdodau lleol hefyd wedi cael pwerau newydd o dan Adran 55 Deddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol 2003, a ddaeth i rym ar 31 Mawrth 2004, i stopio, chwilio ac atafaelu cerbydau yr amheuir bod â wnelo hwynt â gwaredu gwastraff yn anghyfreithlon, ynghyd â phwerau i fynd i mewn i eiddo a chasglu tystiolaeth mewn achosion o'r fath. Deallaf fod deddfwriaeth sylfaenol bellach yn cael ei hystyried.

Mae protocol diwygiedig ar dipio anghyfreithlon, gyda'r nod o egluro'r cyfrifoldebau sy'n cael eu rhannu rhwng awdurdodau lleol ac Asiantaeth yr Amgylchedd yng Nghymru a Lloegr ar gyfer cael gwared ar wahanol fathau o wastraff a gaiff ei dipio'n anghyfreithlon, yn cael ei ystyried.

Mae'n bwysig monitro'r sefyllfa'n effeithiol, ac o fis Ebrill 2004 sefydlodd Asiantaeth yr Amgylchedd, ar ran Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig a chyda chefnogaeth Llywodraeth y Cynulliad, gronfa ddata sy'n dangos nifer yr achosion o dipio anghyfreithlon a'r camau glanhau. Bydd y gronfa ddata yn arf holl-bwysig i'n helpu i ddatblygu polisi a chyfeirio adnoddau yn effeithlon.

Mae Llywodraeth y Cynulliad hefyd yn cefnogi Cadw Cymru'n Daclus yn ei waith cymunedol a'i waith codi ymwybyddiaeth am waredu gwastraff yn anghyfreithlon.

## Cymru Wledig

**Nick Bourne:** Sut y mae'r Gymru wledig ar ei hennill o ganlyniad i bolisïau'r Gweinidog? (WAQ35688)

**Carwyn Jones:** Mae holl bolisïau fy adran wedi'u bwriadu i fod o fudd i Gymru wledig.

## Dodrefn ar gyfer Gweithio Gartref

**Nick Bourne:** A wnaiff y Gweinidog ddweud a yw'r cyrff cyhoeddus a noddir gan y Cynulliad y mae ef yn gyfrifol amdanynt yn darparu dodrefn er mwyn hwyluso gweithio gartref? (WAQ35696)

**Carwyn Jones:** Fe'ch cyfeiriaf at yr ateb i WAQ35690.

## Band Cymhorthdal PAC

**Lynne Neagle:** O fewn band cymhorthdal PAC £100,000 ac uwch, faint o ffermwyr sy'n derbyn taliadau o fwy na £120,000, £150,000, £200,000, £250,000, £300,000, £400,000 a £750,000 ac uwch? (WAQ35745)

**Carwyn Jones:** Yng Nghymru, mae 11 o ffermwyr yn derbyn taliadau cymhorthdal PAC o rhwng £120,000 a £150,000, mae wyth yn derbyn rhwng £150,000 a £200,000 ac mae llai na phump yn derbyn mwy na £200,000. Nid oes yr un ffermwr yn derbyn cymorthdaliadau PAC o fwy na £250,000.

## Cyfarfodydd y Cyd-Bwyllgor Gweinidigion

**Michael German:** Faint o gyfarfodydd y cyd-bwyllgor gweinidigion sy'n cynnwys gweinidogion amaeth a gynhaliwyd ers sefydlu'r Cynulliad? (WAQ35746)

**Carwyn Jones:** Mae dyddiadau ar gael o 2001 ymlaen am ddyddiadau cyfarfodydd ffurfiol datganoledig y gweinidogion amaeth.

| 2001 | 2002 | 2003 | 2004 |
|---|---|---|---|
| 22 Ionawr 2001 | 16 Ionawr 2002 | 12 Chwefror 2003 | 21 Ionawr 2004 |
| 14 Mawrth 2001 | 13 Chwefror 2002 | 2 Ebrill 2003 | 11 Mawrth 2004 |
| 15 Mai 2001 | 22 Mai 2002 | 5 Mehefin 2003 | |
| 4 Gorffennaf 2001 | 19 Mehefin 2002 | 22 Hydref 2003 | |
| 19 Medi 2001 | 9 Hydref 2002 | 20 Tachwedd 2003 | |
| 17 Hydref 2001 | 13 Tachwedd 2002 | 11 Rhagfyr 2003 | |
| 14 Tachwedd 2001 | 11 Rhagfyr 2002 | | |

### Cnydau a Addaswyd yn Enynnol

**Michael German:** Faint o gyfarfodydd yn cynnwys gweinidogion amaeth y DU a'r gweinyddiaethau datganoledig a gynhaliwyd ers sefydlu'r Cynulliad sydd wedi trafod mater cnydau GM? (WAQ35747)

**Carwyn Jones:** Mae gweinidogion amaeth y DU a'r gweinyddiaethau daganoledig yn cael cyfarfodydd wyneb yn wyneb, cyfarfodydd fideo a sgyrsiau dros y ffôn yn rheolaidd. Mae materion yn ymwneud â chnydau a addaswyd yn enynnol wedi bod yn rhan o'r trafodaethau hynny.

### Pwerau Dros Les Anifeiliaid

**Nick Bourne:** A wnaiff y Gweinidog ddweud faint o amser a gymerwyd i drosglwyddo pwerau dros les anifeiliaid i'r Cynulliad Cenedlaethol? (WAQ35772)

**Carwyn Jones:** Trosglwyddwyd nifer o bwerau dros les anifeiliaid i Gynulliad Cenedlaethol Cymru fel rhan o'r Gorchymyn Trosglwyddo Swyddogaethau gwreiddiol yn 1999, a daethant i rym o 1 Gorffennaf 1999. Cadwyd rhai pwerau gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig, neu yr oeddynt i gael eu harfer ar y cyd. Y gobaith yw y caiff y pwerau dros ben dros iechyd a lles anifeiliaid eu trosglwyddo i'r Cynulliad erbyn diwedd y flwyddyn.

## Cwestiynau i'r Gweinidog Cyllid

### Cronfeydd wrth Gefn

**Brynle Williams:** Pa gyllid y mae'r Gweinidog wedi'i neilltuo ar gyfer cronfeydd wrth gefn? (WAQ34535)

**Y Gweinidog Cyllid (Sue Essex):** Yr oedd y gyllideb atodol a gymeradwywyd gan y Cynulliad ar 24 Mawrth yn cynnwys darpariaeth heb ei dyrannu o £55.704 miliwn ar gyfer blwyddyn ariannol 2004-05.

### Canllawiau ar Ddarparu Dodrefn ar gyfer Gweithio Gartref

**Nick Bourne:** Pa ganllawiau mae Llywodraeth Cymru yn eu rhoi i weithwyr yn y sector cyhoeddus ar ddarparu dodrefn i weithio gartref? (WAQ35317)

**Sue Essex:** Dim.

### Gwariant ar Hysbysebu gan Lywodraeth Cynulliad Cymru

**Nick Bourne:** Faint y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi'i wario ar hysbysebu yn ystod y blynyddoedd y mae ffigurau ar gael ar eu cyfer? (WAQ35373)

**Sue Essex:** Yr ydym yn rhoi hysbysebion yn y wasg drwy gontract er mwyn sicrhau ein bod yn targedu cynulleidfaoedd yn effeithiol a'n bod yn cael y gwerth gorau am arian. Ym mlwyddyn ariannol 2002-03,

yr oedd y gwariant yn £1,912,209 ac ym mlwyddyn ariannol 2003-04 yr oedd yn £2,303,681. Mae hyn yn cynnwys hysbysiadau cyhoeddus, hysbysebu penodiadau cyhoeddus, hysbysiadau trafnidiaeth statudol a hysbysebion recriwtio.

**Cyllid Ychwanegol ar gyfer Prif Flaenoriaethau'r Llywodraeth**

**Peter Black:** Pa gyllid ychwanegol a fydd ar gael dros y tair blynedd nesaf i ariannu prif flaenoriaethau'r Llywodraeth? (WAQ35663)

**Sue Essex:** Ni fydd manylion unrhyw gyllid ychwanegol ar gyfer y Cynulliad yn hysbys nes cyhoeddir adolygiad Trysorlys EM o wariant yn ddiweddarach yr haf hwn. Mater i'r Cynulliad benderfynu arno ar ôl y cyhoeddiad fydd sut i ddyrannu'r adnoddau.

**Ariannu Prif Flaenoriaethau'r Llywodraeth**

**Peter Black:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ynghylch sut y bydd yn ariannu prif flaenoriaethau'r Llywodraeth? (WAQ35664)

**Sue Essex:** Mae adolygiad mewnol y Cynulliad o wariant yn archwilio ein rhaglenni cyfredol ac yn gwerthuso eu cyfraniad tuag at wireddu blaenoriaethau Llywodraeth y Cynulliad, fel y'u nodwyd yn 'Cymru: Gwlad Well', yn effeithiol. Bydd canlyniadau'r adolygiad yn cael eu cymryd i ystyriaeth fel rhan o broses cylch cynllunio'r gyllideb.

**Y Gyllideb Datblygu Economaidd a Thrafnidiaeth**

**Lorraine Barrett:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar gyfanswm y cyllid sydd ar gael ar gyfer y gyllideb datblygu economaidd a thrafnidiaeth yn 2004-05? (WAQ35665)

**Sue Essex:** Bydd y prif grŵp gwariant datblygu economaidd a thrafnidiaeth yn derbyn dros £1.3 biliwn yn 2004-05. Mae hyn yn cynrychioli cynnydd o 9.8 y cant neu £120 miliwn o'i gymharu â 2003-04, ar ôl gwneud addasiadau ar gyfer trosglwyddiadau.

**Prosiectau Trawsbynciol Allweddol**

**Ann Jones:** Pa rôl y mae'r Gweinidog yn ei chwarae o ran cydgysylltu cyllidebau i gefnogi prosiectau trawsbynciol allweddol? (WAQ35666)

**Sue Essex:** Mae proses yr adolygiad o wariant wedi'i bwriadu i ystyried pa mor dda mae ein cyllidebau yn cyd-fynd â'r amcanion yn 'Cymru: Gwlad Well', gan gynnwys eitemau trawsbynciol. Bydd hyn yn agwedd allweddol ar y gyllideb ddrafft yr hydref hwn.

**'Rhyl Going Forward'**

**Ann Jones:** Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael â'i chyd-Weinidogion ynghylch yr opsiynau posibl o ran ariannu'r cynigion a nodwyd yn 'Rhyl Going Forward'? (WAQ35667)

**Sue Essex:** Nid wyf wedi cael trafodaethau ffurfiol gyda Gweinidogion eraill eto, ond yr wyf yn ymwybodol o'r gwaith sy'n cael ei wneud ar y mater hwn.

**Gweithdrefn Llywodraeth y Cynulliad o ran y Gyllideb**

**John Griffiths:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar unrhyw gamau pellach y bydd yn eu cymryd i wella gweithdrefn Llywodraeth y Cynulliad o ran y gyllideb? (WAQ35668)

**Sue Essex:** Byddaf yn gwneud newidiadau i'r ffordd y mae cyllidebau Llywodraeth y Cynulliad yn cael eu cyflwyno yr hydref hwn er mwyn sicrhau bod y wybodaeth yn ddealladwy a bod modd cael gafael arni.

### Hyrwyddo Prosiectau'r Fenter Cyllid Preifat

**William Graham:** A wnaiff y Gweinidog nodi'r ddarpariaeth yng nghyllideb y Cynulliad ar gyfer hyrwyddo prosiectau'r fenter cyllid preifat yng Nghymru? (WAQ35672)

**Sue Essex:** Nid oes darpariaeth yng nghyllideb y Cynulliad ar gyfer hyrwyddo prosiectau'r fenter cyllid preifat yng Nghymru.

### Cyllid sydd ar gael ar gyfer y Portffolio Datblygu Economaidd a Thrafnidiaeth

**David Davies:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar gyfanswm y cyllid sydd ar gael ar gyfer y portffolio datblygu economaidd a thrafnidiaeth yn 2004-05? (WAQ35670)

**Sue Essex:** Bydd y portffolio datblygu economaidd a thrafnidiaeth yn cael dros £1.3 biliwn yn 2004-05. Mae hyn yn cynrychioli cynnydd o 9.8 y cant neu £120 miliwn o'i gymharu â 2003-04, ar ôl addasiadau ar gyfer trosglwyddiadau.

### Cyllideb y Cynulliad

**Nick Bourne:** Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael ag Ysgrifennydd Gwladol Cymru ar gyllideb y Cynulliad? (WAQ35673)

**Sue Essex:** Yr wyf yn cwrdd â'r Ysgrifennydd Gwladol yn rheolaidd i drafod amryw o faterion, gan gynnwys cyllideb y Cynulliad.

### Themâu Trawsbynciol y Cynulliad (Y Broses Gyllidebu)

**John Griffiths:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y datblygiadau i fynd i'r afael â themâu trawsbynciol y Cynulliad drwy'r broses gyllidebu? (WAQ35674)

**Sue Essex:** Fel rhan o adolygiad eleni o gynllunio a gwario'r gyllideb, yr wyf wedi gofyn i'r pwyllgorau pwnc a Gweinidogion y Cabinet ystyried sut mae modd gwireddu'r blaenoriaethau a nodwyd yn 'Cymru: Gwlad Well' yn fwyaf effeithiol. Bydd hyn yn cynnwys cyflawni amcanion trawsbynciol.

### Dodrefn ar gyfer Gweithio Gartref

**Nick Bourne:** A wnaiff y Gweinidog ddweud a yw'r cyrff cyhoeddus a noddir gan y Cynulliad y mae'n gyfrifol amdanynt yn darparu dodrefn er mwyn hwyluso gweithio gartref? (WAQ35691)

**Sue Essex:** Fe'ch cyfeiriat at yr ateb i WAQ35690.

### Ymuno â'r Ewro

**Nick Bourne:** Faint mae llywodraeth leol Cymru wedi'i wario i baratoi ar gyfer ymuno â'r ewro? (WAQ35712)

**Sue Essex:** Nid yw Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi casglu gwybodaeth oddi wrth lywodraeth leol yng Nghymru yn benodol am unrhyw symiau sydd wedi cael eu gwario ar baratoi ar gyfer ymuno â'r ewro. Nid yw ychwaith yn bosibl darparu'r wybodaeth hon drwy gyfeirio at y data arferol yr ydym yn ei gasglu oddi wrth lywodraeth leol.

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

### Canolfan Arllwysiad y Crydcymalau

**Owen John Thomas:** Beth yw costau cyffredinol blynyddol canolfan arllwysiad y crydcymalau Ysbyty Prifysgol Cymru, Caerdydd i GIG Cymru? (WAQ35343)

**Owen John Thomas:** Beth yw costau cyffredinol blynyddol canolfan arllwysiad y crydcymalau Ysbyty Tywysoges Cymru, Pen-y-bont ar Ogwr i GIG Cymru? (WAQ35344)

**Owen John Thomas:** Beth yw cyllideb flynyddol y cyffur gwrth-TNF ar gyfer canolfan arllwysiad y crydcymalau Ysbyty Treforys, Abertawe? (WAQ35345)

**Owen John Thomas:** Beth yw costau cyffredinol blynyddol canolfan arllwysiad y crydcymalau Ysbyty Treforys, Abertawe i GIG Cymru? (WAQ35346)

**Owen John Thomas:** Beth yw cyllideb flynyddol y cyffur gwrth-TNF ar gyfer canolfan arllwysiad y Crydcymalau Ysbyty Prifysgol Cymru, Caerdydd? (WAQ35347)

**Owen John Thomas:** Beth yw cyllideb flynyddol y cyffur gwrth-TNF ar gyfer canolfan arllwysiad y crydcymalau Ysbyty Tywysoges Cymru, Pen-y-bont ar Ogwr? (WAQ35348)

**Owen John Thomas:** Pa gynigion sydd ar gyfer dyfodol canolfannau arllwysiad y crydcymalau yng Nghymru yng ngoleuni'r driniaeth gwrth-TNF newydd a gymeradwywyd gan y grŵp strategaeth feddygol lle nad oes angen i'r claf fynd i'r ysbyty? (WAQ35350)

**Y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (Jane Hutt):** Mater i'r ymddiriedolaethau unigol yw hwn. Nid yw'r wybodaeth ar gael yn ganolog nac yn y swyddfeydd rhanbarthol.

### Cost Cyflogi Staff gan Asiantaethau

**Nick Bourne:** Beth yw'r gost i'r GIG o gyflogi staff gan asiantaethau yn y flwyddyn ariannol gyfredol, a beth fu'r gost ym mhob blwyddyn er 1999? (WAQ35359)

**Jane Hutt:** Rhoddir cyfanswm y gost am yr holl staff o asiantaethau, gan gynnwys staff meddygol a nyrsio, fel y'i nodir yng nghyfrifon statudol ymddiriedolaethau'r GIG am bob blwyddyn hyd at fis Mawrth 2003:

- 2002-03—£38 miliwn
- 2001-02—£28 miliwn
- 2000-01—£18 miliwn
- 1999-2000—£13 miliwn.

Nid oes ffigurau am 2003-04 ar gael eto.

### Lleihau Marwolaethau o Strôc

**Ann Jones:** A wnaiff y Gweinidog restru'r mentrau lleol a ariennir drwy'r gronfa anghydraddoldebau iechyd a anelwyd yn gyfan gwbl neu'n rhannol at leihau marwolaethau o strôc? (WAQ35368)

**Ann Jones:** A wnaiff y Gweinidog restru'r mentrau y mae Llywodraeth y Cynulliad/GIG Cymru yn ymgymryd â hwy i leihau'r gyfradd marwolaethau o strôc yng Nghymru? (WAQ35378)

**Jane Hutt:** Sefydlwyd y gronfa anghydraddoldebau iechyd yn 2001 i ysgogi a chefnogi gweithgarwch lleol i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd a'r ffactorau sy'n cyfrannu tuag atynt. Blaenoriaeth y gronfa yw mynd i'r afael â chlefyd coronaidd y galon a'r ffactorau risg sy'n gysylltiedig ag ef, sydd â chysylltiad anorfod â'r ffactorau risg o ran strôc. Felly, mae'r rhan fwyaf o brosiectau a gefnogir gan y gronfa anghydraddoldebau iechyd yn berthnasol er mwyn gostwng nifer yr achosion o strôc. Atodir rhestr o'r 63 prosiect cyfredol, a gwelir bod gan bob un ohonynt rhyw ran i'w chwarae yn lleihau nifer y marwolaethau oherwydd strôc.

**Y gronfa anghydraddoldebau iechyd**

Prosiectau a gefnogir gan y gronfa anghydraddoldebau iechyd, Mehefin 2002

| Ardal bwrdd iechyd lleol/ awdurdod lleol | Teitl y prosiect | Disgrifiad | Cyf. y Prosiect |
|---|---|---|---|
| Blaenau Gwent | Gwasanaeth rhoi'r gorau i ysmygu | Cymorth i helpu oedion mewn cymunedau difreintiedig i roi'r gorau i ysmygu. | 072 |
| Blaenau Gwent | Mynd i'r afael â gordewdra. | Gwasanaeth seiliedig yn y gymuned sy'n gweithredu mewn amryw ffyrdd, a deilwriwyd ar gyfer unigolion. Gwella canlyniadau rheoli gordewdra a datblygu system gymorth hirdymor i gleifion. | 090 |
| Blaenau Gwent | Asesu'r risg o glefyd coronaidd y galon o fewn gofal sylfaenol | Gweithio o fewn practisiau meddygon teulu i ddatblygu cofrestri clefydau er mwyn rhestru cleifion, y rhai sydd mewn perygl o ddatblygu clefyd y galon a'r rhai sydd wedi derbyn diagnosis eisoes. | 094 |
| Blaenau Gwent (a dalgylch ysbyty) | Prosiect rheoli angina | Adsefydlu pobl sydd ag angina. Cymorth a chyngor i leihau'r ffactorau risg a newid ffordd o fyw. Rhaglen ar gyfer adferiad corfforol, seicolegol ac emosiynol a deilwriwyd ar gyfer yr unigolyn. | 005 |
| Blaenau Gwent (a dalgylch ysbyty) | Prosiect rheoli methiant ar y galon | Cynyddu gallu cleifion i ddeall a rheoli eu triniaeth ac i wneud y defnydd gorau posibl o therapïau ffarmacolegol. Mae'n cyfuno addysg, cwnsela, goruchwylio ac ymarfer corff. | 006 |
| Pen-y-bont ar Ogwr | Rhaglen i addasu ffyrdd cymunedau o fyw | Rhaglen gymunedol o dan arweiniad gofal sylfaenol, yn cefnogi newidiadau cynaliadwy o ran ffordd o fyw, wedi'i thargedu at gymunedau ac unigolion y nodwyd bod risg uchel iddynt ddatblygu clefyd coronaidd y galon. | 065 |
| Pen-y-bont ar Ogwr | Gwasanaeth sgrinio manteisgar symudol | Rhestru pobl y mae risg uchel iddynt ddatblygu clefyd coronaidd y galon, nad ydynt yn draddodiadol yn cysylltu â gofal iechyd sylfaenol, nac yn manteisio arno. | 066 |
| Pen-y-bont ar Ogwr | Timau adsefydlu cardiaidd integredig | Gwella mynediad at wasanaethau adsefydlu cardiaidd a'r niferoedd sy'n manteisio arnynt. Annog grwpiau cleifion i ysgwyddo'r cyfrifoldeb am eu hiechyd drwy gyngor, addysg a chefnogaeth. | 069 |
| Caerffili | Canolfan adnoddau clefyd coronaidd y galon, mentrau iechyd lleol | Gwybodaeth gynhwysfawr am glefyd y galon a ffyrdd iach o fyw, a gweithgareddau i hyrwyddo iechyd i'r henoed, plant a phobl ifanc. | 082 |
| Caerffili | Cofrestr clefydau a | Nodi, monitro a nodi'r risg sydd gan gleifion | 083 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | chlinigau asesu risg strwythuredig | o gael clefyd y galon a'u helpu i gymryd camau i'w atal. Bydd y prosiect hefyd yn rhoi prawf ar effeithiolrwydd rhaglen feddalwedd asesu risg. | |
| Caerffili | Ymarfer corff ar bresgripsiwn | Gwella iechyd a lles drwy hybu ymarfer corff a ffyrdd iach o fyw a thrwy ymdrin â ffactorau sy'n cyfrannu at anghydraddoldebau iechyd. | 084 |
| Caerffili | Cynghorydd bwyd ac iechyd | Gweithredu er mwyn gwella iechyd y boblogaeth iau drwy hybu maeth da | 085 |
| Caerdydd | Prosiect gweithwyr iechyd 'troednoeth' | Helpu cymunedau lleol i archwilio ffyrdd sy'n briodol yn ddiwylliannol i wella iechyd gyda chymorth i ddatblygu a darparu gweithgareddau sy'n mynd i'r afael â chlefyd y galon. | 011 |
| Caerdydd | Gweithredu gan dîm amlddisgyblaethol i ddatblygu rhaglen claf-ganolog i atal clefyd coronaidd y galon | Rhoi cymorth i dimau gofal iechyd sylfaenol i ddatblygu systemau i nodi'r rhai sydd mewn perygl ac i ddatblygu a gweithredu rhaglen wedi'i thargedu i leihau'r ffactorau risg ar gyfer clefyd y galon. | 030 |
| Caerdydd | Clefyd cardiofasgwlaidd—sicrhau gwelliant o ran iechyd | Diwallu gofynion y fframwaith gwasanaeth cenedlaethol ar gyfer clefyd coronaidd y galon i boblogaeth practisiau drwy nodi'r rhai sydd mewn perygl. | 081 |
| Caerdydd | Clefyd y galon a diabetes – gweithredu yng nghymunedau du a lleiafrifoedd ethnig de-orllewin Caerdydd | Gwasanaeth cynhwysfawr, o dan arweiniad gofal sylfaenol, lle mae'r gwasanaethau presennol yn dameidiog ac anghydlynus er mwyn goresgyn problemau iaith a phroblemau cyfathrebu diwylliannol a sefydlu gwasanaeth sgrinio iechyd. | 087 |
| Sir Gaerfyrddin | Rhaglen adsefydlu gardiaidd allgymorth | Hwyluso mynediad at y rhaglen adsefydlu gardiaidd drwy raglen allgymorth i gynyddu'r niferoedd sy'n manteisio ar y gwasanaeth, yn enwedig ymysg pobl oedrannus. | 020 |
| Sir Gaerfyrddin | Darparu mynediad cyflym i glinig poen yn y frest | Gwasanaeth mynediad cyflym i leihau nifer y cleifion a gyfeirir i glinigau cardioleg ar gyfer cleifion allanol; rheoli cleifion yn fwy priodol yn y gymuned. | 022 |
| Sir Gaerfyrddin | Rhaglen gymunedol ar gyfer Llanelli i atal clefyd y galon | Prosiect cymunedol clefyd y galon yn targedu'r rhai sydd mewn perygl ac yn cynnwys cynllun cyfeirio i gael ymarfer corff, adsefydlu coronaidd a maeth yn y gymuned. | 024 |
| Sir Gaerfyrddin | Ychwanegu blynyddoedd at oes cleifion sydd â chlefyd coronaidd y galon yn sir Gaerfyrddin | Creu cofrestr o gleifion sydd â chlefyd y galon mewn practisiau meddygon teulu i sicrhau bod y rhai mewn perygl yn cael eu sgrinio. | 026 |
| Ceredigion | Thrombolysis yn y gymuned yng Ngheredigion | Cyflwyno a gwerthuso thrombolysis gofal sylfaenol cyn mynd i'r ysbyty yn y gymuned, mewn ardaloedd gwledig. | 054 |
| Ceredigion | Cymunedau o blaid lleihau | Gweithio gyda phobl mewn ardaloedd difreintiedig i'w galluogi i nodi clefyd y | 079 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | anghydraddoldebau iechyd | galon a gweithredu yn ei gylch, a datblygu camau gweithredu lleol a gwella'r mynediad at y gwasanaethau sy'n bodoli eisoes. | |
| Sir Ddinbych | Rhaglen cymunedau iechyd | Gostwng nifer y bobl y mae perygl iddynt ddatblygu clefyd coronaidd y galon a gwella'r canlyniadau i bobl sydd â'r clefyd. | 060 |
| Sir Ddinbych | Gweithredu cymunedol ar glefyd coronaidd y galon—Rhyl a gogledd sir Ddinbych | Ymdrin ag anghydraddoldebau o ran mynediad at wasanaethau i ymdrin â chlefyd y galon a'r defnydd a wneir ohonynt, a'r ffactorau risg sy'n cyfrannu ato, ac annog pobl i reoli mwy ar eu hiechyd. | 114 |
| Sir Ddinbych | Gweithredu cymunedol ar glefyd coronaidd y galon – Dinbych a de sir Ddinbych | Ymdrin ag anghydraddoldebau o ran mynediad at wasanaethau a chyfleusterau sy'n ymdrin â chlefyd y galon, a'r defnydd a wneir ohonynt, a'r ffactorau risg sy'n cyfrannu ato; annog pobl i reoli mwy ar eu hiechyd a datblygu rhaglen sgrinio a chynllun peilot ar gyfer pobl ag anghenion iechyd meddwl. | 115 |
| Sir y Fflint | Prosiect Calon Sir y Fflint | Annog pobl i wneud mwy o ymarfer corff yn eu bywyd beunyddiol, hyrwyddo bwyta'n iach a lleihau lefelau ysmygu ymysg pobl, yn cynnwys menywod ifanc a phobl ar incwm isel. | 044 |
| Sir y Fflint | Prosiect gofal sylfaenol yr Wyddgrug | Gweithredu safonau 1, 2, 4 a 5 o'r fframwaith gwasanaeth cenedlaethol ar gyfer clefyd coronaidd y galon. | 047 |
| Gwynedd | 'Calon Lân' Gwynedd | Sefydlu 'Calon Lân', gwasanaeth adsefydlu yng nghyswllt clefyd y galon, gwella mynediad at wasanaethau ac adnoddau ac annog ffyrdd o fyw sy'n hybu calon iach. | 016 |
| Merthyr | Prosiect ymyrryd wedi'i dargedu at ffactorau risg clefyd ischaemig y galon | Gweithredu o fewn gofal sylfaenol i adolygu ac archwilio'r gwasanaethau a'r safonau presennol er mwyn nodi'r rhai sydd mewn perygl ar gyfer gwaith atal sylfaenol. | 089 |
| Merthyr | Adsefydlu cardiaidd amlddisgyblaeth yn y gymuned | Hyrwyddo a chefnogi mwy o ymarfer corff gydol oes a chynyddu annibyniaeth cleifion a gafodd drawiad ar y galon. | 100 |
| Merthyr | Hyrwyddo iechyd mewn gweithleoedd bach | Codi ymwybyddiaeth o iechyd cardiofasgwlaidd a'i hyrwyddo drwy hybu iechyd yn y gweithle. | 105 |
| Merthyr | System cynnal cymheiriaid i bobl â diabetes ym Merthyr a Chynon | Gweithredu i helpu cleifion sydd â chlefyd y galon i reoli eu cyflwr a rhoi cyhoeddusrwydd i'r ffactorau risg sy'n gysylltiedig â chlefyd y galon. | 111 |
| Merthyr | Prosiect 'Heartlinks' Merthyr Tudful | Rhaglen gweithgarwch corfforol a bwyta'n iach wedi'i thargedu sy'n gysylltiedig â gwasanaethau ategol ym Merthyr Tudful. | 112 |
| Castell-nedd Port Talbot | Timau adsefydlu cardiaidd integredig | Datblygu timau integredig a chydlynus i ddarparu gwaith adsefydlu cardiaidd. | 068 |
| Castell-nedd Port Talbot | Prosiect calonnau iach | Gwella mynediad at raglenni adsefydlu cardiaidd. Gwasanaeth gwell, a arweinir gan y gymuned, i ddiwallu anghenion cymunedau sydd yn draddodiadol â chyfradd oroesi wael | 097 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | wedi toriad myocardaidd. | |
| Castell-nedd Port Talbot | 'Alive and Ticking'—codi ymwybyddiaeth o glefyd y galon yn y gymuned | Gwasanaeth asesu risg wedi'i dargedu at grwpiau risg. Bydd yn darparu cyngor am iechyd a ffordd o fyw, a gwybodaeth am gymorth ychwanegol a gwasanaethau sydd ar gael yn lleol. | 098 |
| Castell-nedd Port Talbot | Bwyd i'r galon ac iechyd | Cael pobl i fwyta mwy o ffrwythau a llysiau. Gwella sgiliau o ran prynu a pharatoi ffrwythau a llysiau a hyrwyddo cyfrifoldeb personol am iechyd a chodi ymwybyddiaeth o ffactorau risg clefyd cardiaidd y galon. | 099 |
| Casnewydd | Chwaer fawr | Atal clefyd y galon ar gyfer pobl mewn perygl, yn enwedig menywod, grwpiau ethnig a phobl ifanc, a gwella mynediad, cymorth, arweiniad ac ymwybyddiaeth. | 050 |
| Casnewydd | Prosiect cymunedol ar glefyd coronaidd y galon i leiafrifoedd ethnig | Gwella mynediad at wasanaethau clefyd y galon a diabetes i bobl o gymunedau du a lleiafrifoedd ethnig. Cynyddu gwybodaeth ac annog ffordd iachach o fyw er mwyn lleihau'r risg. | 051 |
| Casnewydd | Gofal clefyd cardiaidd y galon i'r boblogaeth hŷn. | Cydlynu'r gwaith o ddarparu gofal cyson ac effeithiol i bobl dros 65 oed sydd â chlefyd y galon, neu y mae perygl iddynt ei ddatblygu. | 052 |
| Casnewydd | Prosiect maeth gofal sylfaenol a chymunedol | Lleihau nifer yr achosion o glefyd y galon drwy hyrwyddo maeth mewn ardaloedd lle ceir tystiolaeth o amddifadedd a/neu anfantais gymdeithasol. | 053 |
| Casnewydd (a dalgych ysbty) | Adsefydlu cardiaidd ac atal eilaidd i gleientiaid sydd wedi'u diagnosio ag angina | Rhaglen i asesu ffactorau risg ar gyfer pobl ag angina er mwyn atal achos cardiaidd arall ac arafu hynt y clefyd. | 064 |
| Sir Benfro | Prosiect cymunedol iechyd y galon sir Benfro | Prosiect sgrinio mewn practisiau meddygon teulu a rhaglenni a chymorth cysylltiedig i helpu pobl i leihau eu risg o gael clefyd y galon. (noder: yn wreiddiol rheolwyd y prosiect hwn fel dau brosiect unigol.) | 070 a/b |
| Powys | Rhaglen adsefydlu gardiaidd seiliedig yn y gymuned (cyfnod IV) | Rhaglen ymarfer corff seiliedig yn y gymuned i bobl â chlefyd coronaidd y galon, yng nghanolfannau hamdden yr awdurdod lleol ym Mhowys. | 017 |
| Powys | Mynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd gyda'n gilydd | Gweithio gyda phobl mewn ardaloedd difreintiedig i'w galluogi i nodi clefyd y galon a gweithredu yn ei gylch, a datblygu camau gweithredu lleol a gwella mynediad at y gwasanaethau sy'n bodoli eisoes. | 080 |
| Rhondda Cynon Taf | Clefyd coronaidd y galon—asesu risg ac ymyrryd, Rhondda a Thaf-Elai | Cynyddu'r gwaith sgrinio am glefyd y galon, i fonitro effeithiolrwydd y driniaeth a llunio cynllun gofal ar draws y darparwyr gofal a chynnwys meddygon teulu mewn cynlluniau gofal. | 033 |
| Rhondda Cynon Taf | Clefyd coronaidd y galon—asesu risg ac ymyrryd, Cwm Cynon | Cynyddu'r gwaith sgrinio am glefyd y galon, i fonitro effeithiolrwydd y driniaeth a llunio cynllun gofal ar draws darparwyr gofal a chynnwys meddygon teulu mewn cynlluniau | 034 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | gofal. | |
| Rhondda Cynon Taf | Trawiad ar y galon—strategaeth ar gyfer byw'n egnïol | Menter gweithgarwch corfforol seiliedig yn y gymuned ar gyfer y rhai sydd mewn perygl o gael clefyd y galon, a fydd hefyd yn datblygu cynllun 'ffrindiau' a chynlluniau 'cerdded er mwyn eich iechyd', ynghyd â rhaglenni hunangymorth ar gyfer adsefydlu cardiaidd. | 037 |
| Rhondda Cynon Taf | Trawiad ar y galon—'Food for Living, Food for Life' | Rhaglen o gyngor a chymorth ymarferol i'r rhai sydd â risg uchel o glefyd y galon. Bydd yn cynnwys gweithwyr proffesiynol ac eraill mewn rhaglenni mewn gweithfannau, siopau a sefydliadau masnachol. | 038 |
| Rhondda Cynon Taf (a dalgylch ysbyty) | Gwasanaeth nyrsio i gleifion sydd â methiant ar y galon | Annog cleifion a'u teuluoedd i reoli a monitro eu cyflwr a mabwysiadu newidiadau buddiol o ran ffordd o fyw a gwella mynediad, cyngor a chymorth er mwyn rhoi'r ansawdd bywyd gorau posibl a helpu cleifion i aros gartref. | 043 |
| Rhondda Cynon Taf | Cychwyn iach: targedu merched beichiog yn eu harddegau | O dan arweiniad bydwragedd, darparu ymyriadau seico-gymdeithasol sy'n lleihau nifer yr achosion o bwysau geni isel ac yn gwella iechyd cardiofasgwlaidd merched beichiog yn eu harddegau a'u plant. | 106 |
| Rhondda Cynon Taf | Adsefydlu cardiaidd amlddisgyblaethol sy'n seiliedig yn y gymuned, yng Nghwm Cynon | Cynyddu ymarfer corff gydol oes a chynyddu annibyniaeth drwy reoli'r pwysau a lefelau cholesterol a thrwy well ystwythder corfforol. | 107 |
| Abertawe | Atal clefyd coronaidd y galon o fewn gofal sylfaenol | Cymorth nyrsio ychwanegol i bractisiau meddygon teulu mewn cymunedau sydd â lefel is na'r cyfartaledd o gymorth, a rhaglen i atal clefyd y galon. | 040 |
| Abertawe | Deieteg o fewn gofal sylfaenol | Cyngor ar ddeieteg ym mhob practis meddyg teulu yn Abertawe er mwyn gostwng lefelau clefyd y galon, a fydd yn sicrhau bod pob claf yn gallu manteisio ar gyngor/cymorth arbenigol. | 041 |
| Abertawe | Clefyd coronaidd yr arterïau | Sicrhau bod y risg o glefyd coronaidd yr arterïau yn cael ei asesu 100 y cant yn Abertawe. | 042 |
| Tor-faen | Clinigau gofal sylfaenol i atal clefyd y galon wedi'u targedu i gynnig 'Ymarfer Corff ar Bresgripsiwn' | Nodi blaenoriaethau gweithredu lleol a datblygu rhaglen weithredu i gyfrannu tuag at ostwng nifer yr achosion o glefyd y galon ac anghydraddoldebau iechyd. | 058 |
| Bro Morgannwg | Iechyd y galon, y Barri | Gweithio gyda thimau gofal sylfaenol i restru'r rhai sydd mewn perygl a lleihau ffactorau risg ffordd o fyw yn ogystal ag annog pobl i roi'r gorau i ysmygu, gwella eu maeth a'u lefelau ymarfer corff, a gostwng lefelau straen ac yfed llai o alcohol. Ymgyrch leol yw hon i nodi a darparu cyngor a gwybodaeth yn lleol am ostwng lefel clefyd coronaidd y galon. | 009 |
| Wrecsam | Clefyd coronaidd y | Gwella mynediad at wasanaethau gofal | 012 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | galon a chrwydriaid—<br>'Troi'r Fantol' | iechyd a gostwng nifer yr achosion o glefyd y galon o fewn cymuned o grwydriaid, a'i atal. | |
| Wrecsam | Calonnau a meddyliau | Annog iechyd corfforol a lles i bobl ag anawsterau dysgu a/neu broblemau iechyd meddwl tymor hir. | 015 |
| Wrecsam | Dosbarthiadau cymunedol ar fwyta'n iach | Cefnogi unigolion i golli pwysau, hybu dull cyfannol o ymdrin â bwyta'n iach a cholli pwysau, a chefnogaeth cymheiriaid. | 028 |
| Wrecsam | Targedu gweithgarwch ynglŷn â chlefyd coronaidd y galon ar ystad dai ddifreintiedig yng ngogledd Cymru. | Codi ymwybyddiaeth o fanteision sgrinio iechyd, cymorth a mynediad at wasanaeth gofal iechyd priodol, ac annog ffordd iachach o fyw. | 029 |
| Ynys Môn | Gweithredu cymunedol i atal clefyd coronaidd y galon mewn cymunedau difreintiedig—<br>Ynys Môn | Gwella mynediad at y gwasanaethau sy'n bodoli a sefydlu 'Calon Lân', tîm atal clefyd y galon a gwasanaethau adsefydlu cardiaidd sy'n seiliedig yn y gymuned. | 045 |
| Ynys Môn | Swyddog datblygu cymunedau iach | Creu cymunedau byw a chefnogol i ofalu am les unigolion. | 046 |

**Lleihau Marwolaethau o Strôc**

**Ann Jones:** Beth yw targed Llywodraeth Cynulliad Cymru i leihau marwolaethau o strôc yng Nghymru? (WAQ35377)

**Jane Hutt:** Cyfrifoldeb y byrddau iechyd lleol yw darparu gwasanaethau iechyd, gan gynnwys gwasanaethau strôc. Rhaid iddynt gynnal asesiadau o'r anghenion lleol a, chan weithio gydag ymddiriedolaethau'r GIG, y sector gwirfoddol ac eraill, gynllunio a blaenoriaethu gwasanaethau i ddiwallu'r anghenion hynny o fewn yr adnoddau sydd ar gael.

Bydd y fframwaith gwasanaeth cenedlaethol i bobl hŷn yng Nghymru yn canolbwyntio ar ofal ar ôl strôc a bydd yn help i nodi gweithredoedd i leihau unrhyw amrywiadau annerbyniol yn y gwasanaeth ac i wella ansawdd.

Yr ydym wedi gofyn i'r ymddiriedolaethau a'r byrddau iechyd lleol sefydlu llwybrau gofal integredig i sicrhau bod yna fesurau cyson, waeth ble yng Nghymru yr ydych yn byw, i atal a rheoli strôc.

**Diffyg Unedau Strôc Arbenigol**

**Ann Jones:** Pa ysbytai cyffredinol rhanbarthol yng Nghymru sydd ar hyn o bryd heb uned strôc arbenigol? (WAQ35379)

**Jane Hutt:** Mae darparu gwasanaethau strôc effeithiol yng Nghymru yn fater pwysig iawn. Dengys ymchwil fod gwasanaethau strôc pwrpasol yn gallu arbed bywydau a chynyddu nifer y goroeswyr annibynnol. Yr ydym wedi ymrwymo i ddatblygu gwasanaethau o ansawdd uchel sy'n diwallu anghenion cleifion.

Cynhaliwyd archwiliad strôc 2001-02 Coleg Brenhinol y Meddygon yng Nghymru rhwng 1 Ebrill 2001 a 30 Mehefin 2001. Cymerodd 17 safle ran yng Nghymru ac, o'r rhain, dywedodd 11 fod ganddynt uned strôc yn eu hymddiriedolaeth. Fodd bynnag, ni ddatganodd y coleg brenhinol pa safleoedd oedd ag unedau strôc a pha rai oedd heb unedau. Mae'r archwiliad yn cael ei ailadrodd ar hyn o bryd ac yr ydym yn disgwyl y canlyniadau yn yr haf.

Bydd y fframwaith gwasanaeth cenedlaethol i bobl hŷn yng Nghymru yn canolbwyntio ar ofal ar ôl strôc a bydd yn help i leihau unrhyw amrywiadau annerbyniol yn y gwasanaeth ac i wella ansawdd. Bydd effeithlonrwydd unedau strôc pwrpasol yng Nghymru yn cael ei ystyried wrth dywys y gwaith hwn yn ei flaen. Er nad yw strôc yn gyflwr sydd wedi'i gyfyngu i bobl hŷn, byddwn yn sicrhau bod yr argymhellion o ran darparu gwasanaethau strôc yn berthnasol i bob oed.

Yr ydym wedi gofyn i'r ymddiriedolaethau a'r byrddau iechyd lleol sefydlu llwybrau gofal integredig i sicrhau bod yna fesurau cyson, waeth ble yng Nghymru yr ydych yn byw, i atal a rheoli strôc.

**Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol ar gyfer Pobl Hŷn**

**Ann Jones:** Pa gynlluniau sydd gan y Gweinidog i gyhoeddi safonau cenedlaethol ar ofal i ddioddefwyr strôc ar gyfer Cymru yn y fframwaith gwasanaeth cenedlaethol ar gyfer pobl hŷn? (WAQ35380)

**Jane Hutt:** Bydd y fframwaith gwasanaeth cenedlaethol i bobl hŷn, sy'n cael ei ddatblygu ar gyfer Cymru ar hyn o bryd, yn cynnwys safon ar strôc. Bydd y safon yn ymdrin ag atal strôc ac â thriniaeth ar y pryd ac yn y tymor hwy i oedolion o bob oedran. Bydd yn ymgorffori safonau mesuradwy ar gyfer gofal strôc yng Nghymru, a chymerir camau i fonitro pa un a yw'r safon yn cael ei chyrraedd drwy fecanwaith rheoli perfformiad y fframwaith gwasanaeth cenedlaethol.

Mae'r safon ar strôc ar gyfer y fframwaith gwasanaeth cenedlaethol yn cael ei datblygu gan is-grŵp, a gadeiriwyd tan yn ddiweddar gan Margaret Goose, prif weithredwr y Gymdeithas Strôc. Mae'r is-grŵp yn cynnwys gweithwyr proffesiynol iechyd a gofal cymdeithasol, swyddogion Cynulliad a defnyddwyr gwasanaeth.

Bydd y fframwaith gwasanaeth cenedlaethol drafft i bobl hŷn yng Nghymru yn cael ei gyhoeddi at ddibenion ymgynghori ym mis Tachwedd 2004, a'r bwriad yw ei gyhoeddi'n derfynol erbyn mis Mehefin 2005.

**Cyfradd Marwolaethau o Strôc**

**Ann Jones:** Sut y mae'r gyfradd marwolaethau o strôc yng Nghymru yn cymharu â'r cyfraddau mewn gwledydd a rhanbarthau eraill yn y Deyrnas Unedig? (WAQ35381)

**Jane Hutt:** Nid yw'r data ar gael am Gymru, ond bob blwyddyn mae 110,000 o bobl yng Nghymru a Lloegr yn cael eu strôc gyntaf, a bydd 30,000 o bobl yn mynd ymlaen i gael strociau pellach. Dyma'r achos unigol mwyaf o anabledd difrifol a'r achos marwolaethau mwyaf cyffredin ond dau yn y DU a gwledydd datblygedig eraill.

**Cyhoeddi Ymatebion y Byrddau Iechyd Lleol i Adroddiad Wanless**

**Kirsty Williams:** A fydd ymatebion y byrddau iechyd lleol i adroddiad Wanless yn cael eu cyhoeddi, ac os felly, pryd? (WAQ35382)

**Jane Hutt:** Datblygwyd cynlluniau gweithredu lleol Wanless gan y byrddau iechyd lleol ar y cyd â phartneriaid a rhanddeiliaid. Cawsant eu cymeradwyo gan y byrddau iechyd lleol ac maent, felly, yn eiddo cyhoeddus. Fel rhan o'r drafodaeth yn y Cyfarfod Llawn am adroddiad y Comisiwn Archwilio, 'Trawsnewid Iechyd a Gofal Cymdeithasol yng Nghymru', a gynhaliwyd ar 18 Mai 2004, dosbarthwyd cynlluniau gweithredu lleol Wanless i Aelodau'r Cynulliad.

**Ymatebion y Byrddau Iechyd Lleol i Adroddiad Wanless**

**Kirsty Williams:** A yw ymatebion y byrddau iechyd lleol i adroddiad Wanless yn cael eu cyflwyno i'r Cynulliad neu i'r swyddfa ranbarthol berthnasol? (WAQ35383)

**Jane Hutt:** Yn y canllawiau a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2003, gofynnwyd i'r byrddau iechyd lleol gyflwyno eu cynlluniau gweithredu lleol Wanless i adran iechyd a gofal cymdeithasol y Cynulliad. Cafodd pob un o'r 22 cynllun gweithredu lleol Wanless ei gyflwyno mewn pryd cyn y dyddiad cau, sef 30 Ebrill 2004. Dechreuodd gwerthusiad llawn ar unwaith a bydd yn parhau tan fis Mehefin 2004. Bydd gan swyddfeydd rhanbarthol y Cynulliad ran yn y broses werthuso fanwl hon.

**Paratoi Ymatebion y Byrddau Iechyd Lleol i Adroddiad Wanless**

**Kirsty Williams:** A fydd ymatebion y byrddau iechyd lleol i adroddiad Wanless yn cael eu paratoi ar lefel bwrdd iechyd lleol, neu ar lefel arbenigol? (WAQ35384)

**Jane Hutt:** Paratowyd cynlluniau gweithredu lleol Wanless ar lefel y byrddau iechyd lleol. Maent wedi'u gosod o fewn fframwaith y strategaethau iechyd, gofal cymdeithasol a lles ac fe'u datblygwyd mewn partneriaeth â'r awdurdodau lleol, ymddiriedolaethau'r GIG, mudiadau sector gwirfoddol, cynrychiolwyr clinigol ac arbenigol a rhanddeiliaid lleol eraill.

Bydd y broses werthuso yn ystyried cynlluniau gweithredu lleol Wanless o amryw o safbwyntiau gofodol, er enghraifft, lleol, rhanbarthol a chenedlaethol, a chan gynnwys gwasanaethau arbenigol, y sector gwirfoddol a rhwydweithiau clinigol.

**Rôl y Swyddfeydd Rhanbarthol (Ymatebion y Byrddau Iechyd Lleol)**

**Kirsty Williams:** Beth fydd rôl y swyddfeydd rhanbarthol o ran ymateb y byrddau iechyd lleol i adroddiad Wanless? (WAQ35385)

**Jane Hutt:** Mae tair swyddfa ranbarthol y Cynulliad Cenedlaethol yn y Canolbarth a'r Gorllewin, y Gogledd, a de-ddwyrain Cymru yn cefnogi gwell cydweithio ar lefelau lleol rhwng y byrddau iechyd lleol, yr awdurdodau lleol a'r ymddiriedolaethau, ynghyd â monitro'r gwaith o ddatblygu'r strategaethau iechyd, gofal cymdeithasol a lles lleol. Mae ganddynt rôl benodol i sicrhau bod cynlluniau'r Cynulliad yn cael eu rhoi ar waith.

Mae'r swyddfeydd rhanbarthol wedi gweithio ochr yn ochr â'r byrddau iechyd lleol i ddatblygu cynlluniau gweithredu lleol Wanless. Mae'r swyddfeydd rhanbarthol yn rhan annatod o'r broses o werthuso cynlluniau gweithredu lleol Wanless a byddant yn asesu'r cynlluniau o safbwynt rhanbarthol.

**Lleoedd Hyfforddiant Nyrsys**

**Jonathan Morgan:** A wnaiff y Gweinidog restru nifer y lleoedd hyfforddiant nyrsys sy'n cael eu cynnig yn 2004-05 gan bob sefydliad academaidd, a phob un a ddarparwyd ym mhob blwyddyn academaidd ers 1999? (WAQ35421)

**Jane Hutt:** Mae'r niferoedd cyn-cofrestru ar gyfer 2004-05 wedi cael eu comisiynu i adlewyrchu'r gofynion staffio, fel y'u hamlinellwyd yng nghynlluniau gweithlu 2003, a hynny ochr yn ochr â'r fenter dychwelyd i weithio ar ei newydd wedd am y tair blynedd nesaf.

Mae llinell sylfaen y niferoedd cyn-cofrestru a gomisiynwyd, sy'n cynnwys y pedair cangen cyn-cofrestru—oedolion, plant, iechyd meddwl ac anableddau dysgu—ar gyfer 2004-05 fel a ganlyn:

| | **04-05** |
|---|---:|
| | **Comisiynau llinell sylfaen** |
| Prifysgol A | 245 |
| Prifysgol B | 284 |
| Prifysgol C | 316 |
| Prifysgol D | 270 |
| Prifysgol E | 115 |

| | |
|---|---:|
| **CYFANSWM** | **1230** |

Dyma nifer y nyrsys cyn-cofrestru sydd wedi cwblhau eu hyfforddiant ym mhob blwyddyn ers 1999:

| | |
|---|---:|
| 1999-2000 | 730 |
| 2000-01 | 741 |
| 2001-02 | 823 |
| 2002-03 | 825 |
| 2003-04 | 936 |

Dyma'r nifer sydd i fod i gwblhau eu hyfforddiant cyn-cofrestru yn y tair blynedd ddilynol:

| | |
|---|---:|
| 2004-05 | 1070 |
| 2005-06 | 1239 |
| 2006-07 | 1278 |

**Y Proffesiwn Nyrsio**

**Jonathan Morgan:** A wnaiff y Gweinidog restru dyddiadau a manylion y cyfarfodydd a gynhaliwyd eleni rhwng ei swyddogion a chynrychiolwyr addysg uwch sy'n ymwneud â hyfforddi myfyrwyr yn y proffesiwn nyrsio? (WAQ35422)

**Jane Hutt:** Mae swyddogion y Cynulliad yn cwrdd yn flynyddol â chynrychiolwyr y sefydliadau addysg uwch sy'n darparu hyfforddiant i nyrsys yng Nghymru i drafod y contract blynyddol, gan gynnwys y lleoedd hyfforddi ar gyfer nyrsys. Cynhelir cyfarfodydd eraill yn ystod y flwyddyn.

Hyd yma yn 2004, cafodd cyfarfodydd a fynychwyd gan gynrychiolwyr o'r sefydliadau addysg uwch eu cynnal ar y dyddiadau canlynol:

| Dyddiad | Sefydliad addysg uwch |
|---|---|
| 20 Ionawr 2004 | Cynrychiolwyr y sefydliadau addysg uwch |
| 26 Ionawr 2004 | Coleg Prifysgol Cymru, Abertawe |
| 29 Ionawr 2004 | Cynrychiolwyr y sefydliadau addysg uwch |
| 9 Chwefror 2004 | Coleg Meddygaeth Prifysgol Cymru |
| 13 Chwefror 2004 | Prifysgol Cymru, Bangor |
| 13 Chwefror 2004 | Athrofa Gogledd-ddwyrain Cymru |
| 5 Mai 2004 | Cynrychiolwyr y sefydliadau addysg uwch |
| 17 Mai 2004 | Coleg Prifysgol Cymru, Abertawe |
| 18 Mai 2004 | Athrofa Prifysgol Cymru, Caerdydd |

Cyfarfodydd yr is-grwpiau nyrsio, bydwreigiaeth, y proffesiynau perthynol i iechyd a'r gwyddonwyr gofal iechyd oedd y cyfarfodydd ar 20 Ionawr 2004 a 5 Mai 2004. Cylch gwaith y grŵp hwn yw darparu rôl gynghori i grŵp llywio datblygu gweithlu Cymru gyfan ar faterion nyrsio, bydwreigiaeth, y proffesiynau perthynol i iechyd a'r gwyddonwyr gofal iechyd ac ar faterion addysg ar lefel genedlaethol. Mynychodd cynrychiolwyr y sefydliadau addysg uwch gyfarfodydd y grŵp llywio hefyd. Cyfarfu'r grŵp llywio ddiwethaf ar 29 Ionawr 2004, ac mae'r cyfarfodydd nesaf wedi cael eu trefnu ar gyfer 25 Mai ac 14 Medi 2004.

Yn ogystal, mae swyddogion Cynulliad yn cwrdd â chynrychiolwyr o sefydliadau addysg uwch Cymru ar 2 Mehefin 2004. Bydd yr agenda ar gyfer y cyfarfod hwn yn cynnwys:

- gweithio mewn partneriaeth,
- cynllunio'r gweithlu,
- goblygiadau adolygiad Wanless i iechyd a gofal cymdeithasol,
- addysg a hyfforddiant—adolygiad o'r trefniadau comisiynu yng Nghymru,
- comisiynu—trafodaeth am brosesau 2004-05,

- ‘Dychwelyd i Weithio’—trafodaeth am yr ymgyrch,
- ehangu’r mynediad at hyfforddiant.

**Lleoedd Hyfforddi Nyrsys**

**Jonathan Morgan:** Faint o leoedd hyfforddi nyrsys y mae cyllid Llywodraeth y Cynulliad yn ei ariannu yn y flwyddyn academaidd 2004-05 a sut y mae’r ffigur hwn yn cymharu â phob blwyddyn academaidd ers 1999-2000? (WAQ35423)

**Jane Hutt:** Mae nifer y lleoedd hyfforddi nyrsys a ariannwyd gan y Cynulliad fesul blwyddyn er 1999-2000 fel a ganlyn:

| | |
|---|---:|
| 1999-2000 | 2,609 |
| 2000-01 | 2,897 |
| 2001-02 | 3,261 |
| 2002-03 | 3,499 |
| 2003-04 | 3,782 |
| 2004-05 | 3,934 |

**Swyddi Nyrsio Gwag**

**Jonathan Morgan:** Faint o swyddi nyrsio gwag sydd yng Nghymru heddiw? (WAQ35424)

**Jane Hutt:** Mae’r data diweddaraf yn ymdrin â 31 Mawrth 2003, ac mae’n dangos 708.9 o swyddi gwag cyfwerth ag amser llawn yn y grŵp nyrsio, bydwreigiaeth ac ymwelwyr iechyd—664.5 i staff cymwysedig a 44.4 i staff digymhwyster. Fel canran o gyfanswm y nyrsys, mae’r swyddi gwag hyn yn cynrychioli 3.2 y cant o’r holl staff cymwysedig a 0.8 y cant o’r holl staff digymhwyster.

**Dodrefn ar gyfer Gweithio Gartref**

**Nick Bourne:** A wnaiff y Gweinidog ddweud a yw’r Cyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad y mae hi’n gyfrifol amdanynt yn darparu dodrefn er mwyn hwyluso gweithio gartref? (WAQ35693)

**Jane Hutt:** Fe’ch cyfeiriaf at yr ateb i WAQ35690.

**Gwasanaethau Eiriolaeth (Oedolion ag Anabledd Dysgu)**

**David Lloyd:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y gwasanaethau eiriolaeth a ddarperir i bobl ag anawsterau dysgu, yn seiliedig ar yr adroddiad ‘Gwireddu’r Addewidion’ a’r ‘Canllawiau ar Egwyddorion Gwasanaeth (Oedolion)’? (WAQ35698)

**David Lloyd:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar gyfleusterau hamdden i oedolion ag anabledd dysgu fel y’u nodwyd yn y ‘Canllawiau ar Egwyddorion Gwasanaeth (Oedolion)’? (WAQ35699)

**David Lloyd:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar rôl gofalwyr teuluol oedolion ag anabledd dysgu fel y’u diffiniwyd yn y ‘Canllawiau ar Egwyddorion Gwasanaeth (Oedolion)’? (WAQ35700)

**Jane Hutt:** Yr ydym yn ddiweddar wedi cwblhau ymgynghoriad ar y canllawiau drafft sy’n manylu ar egwyddorion gwasanaeth ac ymatebion gwasanaeth i oedolion ag anableddau dysgu. Mae oddeutu 130 yn o ymatebion i’r ymgynghoriad yn cael eu dadansoddi a’u hystyried. Byddaf yn ceisio barn y grŵp cynghori ynghylch gweithredu yng nghyswllt anableddau dysgu am yr ymatebion i’r ymgynghoriad ac am ffurf y canllawiau terfynol cyn imi wneud penderfyniadau terfynol. Pan gyhoeddir y canllawiau terfynol , gofynnaf i’r awdurdodau archwilio eu trefniadau cyfredol yn erbyn y canllawiau hyn a dod â

chynlluniau gweithredu diwygiedig gerbron. Yr wyf wedi darparu £1.7 miliwn eleni i gynorthwyo'r awdurdodau i roi'r cynlluniau gweithredu hyn ar waith.

Y llynedd, cyflwynasom ein cynllun grant eiriolaeth anableddau dysgu, sy'n cael ei weinyddu ar ein rhan gan Sefydliad Anableddau Dysgu Prydain. Hyd yma, mae dros 30 o gyrff eiriolaeth ar draws Cymru wedi cael cymorth.

### Myasthenia Gravis

**David Lloyd:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y cymorth y mae wedi'i ddarparu i'r rhai sy'n dioddef o myasthenia gravis? (WAQ35701)

**David Lloyd:** Sut y mae'r Gweinidog yn codi ymwybyddiaeth am myasthenia gravis ymhlith y proffesiwn meddygol? (WAQ35703)

**Jane Hutt:** Y byrddau iechyd lleol sy'n gyfrifol am ddarparu gwasanaethau lleol a fyddai'n cynnwys gwasanaethau i drin y rhai sy'n dioddef o myasthenia gravis. Mae'r byrddau iechyd lleol mewn sefyllfa ddelfrydol i weithio gyda phartneriaid, yn cynnwys ymddiriedolaethau'r GIG, awdurdodau lleol a'r sector gwirfoddol, i ganfod anghenion y boblogaeth leol a datblygu gwasanaethau i ddiwallu'r anghenion hynny.

Yn ogystal, mae cynlluniau iechyd, gofal cymdeithasol a lles y byrddau iechyd lleol, sy'n destun ymgynghori ar hyn o bryd, yn darparu rhaglen weithredu sydd wedi'i seilio ar asesiad cynhwysfawr o'r anghenion lleol. Caiff datblygiadau gwasanaeth eu hamlinellu'n glir o fewn cynlluniau pob un o'r byrddau iechyd lleol.

Fel arfer mae'r rhai sy'n dioddef o myasthenia gravis yn cael eu trin yn lleol ar draws Cymru gan wasanaethau gofal sylfaenol a'u cyfeirio i glinigau niwro-imiwnoleg arbenigol yn ôl eu hanghenion clinigol. Os oes angen dull gwahanol o weithredu, byddem yn disgwyl i'r byrddau iechyd lleol weithio gyda'i gilydd a chyda phartneriaid eraill i awgrymu'r ffordd orau ymlaen, boed hynny ar sail Cymru gyfan neu sail arall.

Bydd yr adolygiad niwro-wyddoniaeth arbenigol sydd ar y gweill gan Gomisiwn Iechyd Cymru ar hyn o bryd yn adeiladu ar ganfyddiadau rhagarweiniol y gwaith a wnaed gan Gomisiwn Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru cyn ad-drefnu'r GIG. Bydd yr adolygiad hwn yn rhoi dealltwriaeth gliriach inni o'r materion sy'n wynebu gwasanaethau niwro-wyddoniaeth ar draws Cymru ac yn gwneud argymhellion gogyfer â datblygiadau cydlynol ar sail Cymru gyfan. Bydd ystyriaethau adnoddau a buddsoddi hefyd yn rhan annatod o'r adolygiad.

### Cleifion sy'n Dioddef o Myasthenia Gravis

**David Lloyd:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar amseroedd aros mewn ysbytai ar gyfer cleifion sy'n dioddef o myasthenia gravis? (WAQ35702)

**Jane Hutt:** Nid oes cynlluniau i gasglu amseroedd aros cleifion mewnol nac achosion dydd gogyfer â myasthenia gravis, ar ôl i'r cyflwr gael ei ddiagnosio. Gall y driniaeth ar gyfer y clefyd cynyddol hwn olygu meddyginiaeth dros dymor hir o dan oruchwyliaeth ymgynghorydd, a/neu ymyrraeth therapi lle byddai'r ymgynghorydd yn cyfeirio'r claf ymlaen i'r adran berthnasol ar yr adeg briodol.

### Myasthenia Gravis (Hawl i Fudd-daliadau)

**David Lloyd:** Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael ag Ysgrifennydd Gwladol Cymru ynghylch hawl y rhai sy'n dioddef o myasthenia gravis i gael budd-daliadau? (WAQ35704)

**Jane Hutt:** Cyfrifoldeb yr Adran Gwaith a Phensiynau yw'r mater hwn ac nid yw wedi cael ei ddatganoli i'r Cynulliad.

**Symud Swyddi Gweinyddol yn y Gwasanaeth Iechyd**

**Alun Ffred Jones:** Gyda golwg ar yr ateb i gwestiwn WAQ34842, faint o staff sydd dan sylw? (WAQ35707) [W]

**Alun Ffred Jones:** Gyda golwg ar yr ateb i gwestiwn WAQ34842, beth yw graddfeydd cyflog y swyddi hyn? (WAQ35705) [W]

**Alun Ffred Jones:** Gyda golwg ar yr ateb i gwestiwn WAQ34842, beth yw cyfrifoldebau'r staff? (WAQ35706) [W]

**Alun Ffred Jones:** Gyda golwg ar yr ateb i gwestiwn WAQ34842, i bwy mae'r gweithwyr hyn yn atebol? (WAQ35708) [W]

**Jane Hutt:** Mae'r ddogfen ymgynghori ddrafft yn awgrymu yr effeithir ar 20 o swyddi yng nghanolfan gwasanaethau busnes GIG Caernarfon, yn amrywio o staff clercio i uwchreolwyr.

Penderfynir ar y canlyniad ar ôl pwyso a mesur yr ymgynghoriad 90-diwrnod a fydd yn dechrau ar 27 Mai 2004. Tan y daw'r broses i ben, byddai'n amhriodol cynnig sylw pellach.

**Fformiwla Anghenion Iechyd Townsend**

**Jenny Randerson:** Pa gynlluniau sydd gan y Gweinidog i gynyddu cyllideb dyraniad Bwrdd Iechyd Lleol Caerdydd ar gyfer gwasanaethau ysbytai a chymunedol, yn unol â'r £9.6 miliwn ychwanegol a awgrymwyd gan fformiwla anghenion iechyd Townsend? (WAQ35709)

**Jane Hutt:** Cyhoeddais ym mis Chwefror y byddai £30 miliwn yn cael ei roi i'r byrddau iechyd lleol i'w helpu gyda'r gwaith o weithredu'r agenda ddiwygio sy'n deillio o'r adolygiad iechyd a gofal cymdeithasol. Cafodd yr arian hwn ei ddosbarthu i'r ardaloedd hynny lle'r oedd y bwlch mwyaf rhwng eu dyraniadau cyfredol a'u cyfran darged o dan y fformiwla anghenion uniongyrchol. Bydd Bwrdd Iechyd Lleol Caerdydd yn derbyn £2.7 miliwn o'r dyraniad hwn. Byddaf yn penderfynu yn ystod y cylch blynyddol i bennu'r gyllideb faint fydd yn cael ei roi bob blwyddyn yn y dyfodol, yn dibynnu ar yr arian fydd ar gael.

**Nifer y Swyddi Gwag o fewn Gofal Canser**

**Lynne Neagle:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar nifer y swyddi gwag o fewn gofal canser yng Nghymru yn ôl ymddiriedolaethau'r GIG ym meysydd nyrsys cymunedol, nyrsys clinigol arbenigol, nyrsys gofal lliniarol, oncolegwyr clinigol, oncolegwyr meddygol, radiograffwyr diagnostig, radiograffwyr therapiwtig, a radiolegwyr clinigol? (WAQ35754)

**Jane Hutt:** Dim ond yn ôl arbenigedd y mae data am swyddi gwag yn cael ei gasglu am staff meddygol a deintyddol, felly nid oes data yn ymdrin â gofal canser ym meysydd nyrsys cymunedol, nyrsys clinigol arbenigol, nyrsys gofal lliniarol, radiograffwyr diagnostig, radiograffwyr therapiwtig, a radiolegwyr clinigol ar gael. Fodd bynnag, ar 31 Mawrth 2003, yr oedd pedair swydd wag cyfwerth ag amser llawn i nyrsys cymwysedig yn Ymddiriedolaeth GIG Felindre—y brif ganolfan triniaeth canser yng Nghymru.

Mae'r tabl ynghlwm yn dangos nifer y swyddi gwag—a oedd wedi bod yn wag am dri mis neu fwy—ar 31 Mawrth 2003 i oncolegwyr clinigol. Nid oedd swyddi gwag i oncolegwyr meddygol.

| **Oncoleg Glinigol** | **31 Mawrth 2003** |
|---|---:|
| Bro Morgannwg | 0 |
| Caerdydd a'r Fro | 0 |

| | |
|---|---|
| Sir Gaerfyrddin | 0 |
| Ceredigion a'r Canolbarth | 0 |
| Conwy a Sir Ddinbych | 0 |
| Gofal Iechyd Gwent | 0 |
| Gogledd-ddwyrain Cymru | 0 |
| Gogledd Morgannwg | 0 |
| Gogledd-orllewin Cymru | 1 |
| Sir Benfro a Derwen | 0 |
| Pontypridd a Rhondda | 0 |
| Gofal Iechyd Powys | 0 |
| Abertawe | 1 |
| Felindre | 0 |
| **Cyfanswm i bob ymddiriedolaeth** | **2** |

### Canllawiau NICE

**Kirsty Williams:** Faint o arian a glustnodwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i ddarparu asesiad a chefnogaeth adsefydlu effeithiol fel y'u cafwyd yng nghanllaw NICE? (WAQ35761)

**Jane Hutt:** Nid wyf yn sicr a ydych yn cyfeirio at un ganllaw benodol gan NICE ynteu at ganllawiau'r sefydliad yn gyffredinol. Yn 2002-03, darperais £10.5 miliwn ychwanegol i'r awdurdodau iechyd i'w helpu gyda phwysau o ran costau a phwysau datblygiadol, yn cynnwys rhoi canllawiau NICE ar waith. Caiff yr arian hwn ei roi'n rheolaidd i'r byrddau iechyd lleol fel rhan o'u setliadau blynyddol, a gynyddir o flwyddyn i flwyddyn.

Os ydych yn cyfeirio at ganllaw benodol gan NICE, rhowch wybod imi a byddaf yn ymchwilio ymhellach i'r mater.

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio

### Tai Fforddiadwy

**Nick Bourne:** Beth y mae'r Gweinidog yn ei wneud i sicrhau bod tai fforddiadwy yn cael eu darparu yn y Canolbarth ? (WAQ35375)

**Y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio (Edwina Hart):** Mae bron i £3 miliwn o'r grant tai cymdeithasol wedi cael ei ddyrannu i siroedd Powys a Cheredigion yn y flwyddyn ariannol hon, a fydd yn golygu, ynghyd â'r cyllid preifat a godir gan landlordiaid cymdeithasol, ryw £4 miliwn o fuddsoddiad mewn tai yn y Canolbarth yn y flwyddyn ariannol hon. Yn unol â'n hegwyddor o gyflawni'n lleol, mater i'r awdurdodau lleol yw penderfynu ar eu blaenoriaethau o ran gwario'r arian.

Yr ydym wedi ymrwymo i gynnal adolygiad o gyfundrefn y grant tai cymdeithasol a'r broses o ddatblygu tai cymdeithasol newydd yng Nghymru. Bydd y gwaith hwnnw'n golygu adolygu maint y gyllideb ar gyfer y grant tai cymdeithasol yn ogystal â'r mecanweithiau dosbarthu a meini prawf eraill.

### Dodrefn ar gyfer Gweithio Gartref

**Nick Bourne:** A wnaiff y Gweinidog ddweud a yw'r cyrff cyhoeddus a noddir gan y Cynulliad y mae hi'n gyfrifol amdanynt yn darparu dodrefn er mwyn hwyluso gweithio gartref? (WAQ35692)

**Edwina Hart:** Nid oes cyrff cyhoeddus a noddir gan y Cynulliad yn dod o fewn cyfrifoldebau fy mhortffolio i.

**Hawl i Brynu (Cysondeb Prisio ym Mhenparcau)**

**Nick Bourne:** A dderbyniodd y Gweinidog unrhyw sylwadau am gysondeb prisio mewn perthynas â'r cynllun hawl i brynu ym Mhenparcau, Aberystwyth, ac a wnaiff roi manylion am y sylwadau hynny? (WAQ35734)

**Edwina Hart:** Yr wyf wedi derbyn sylwadau am y prisiadau ar dai hawl i brynu ym Mhenparcau. Yr oedd a wnelo'r rhain yn gyffredinol â chymhwyso'r rheol pris isaf yng nghyswllt rhai tai unigol.

**Hawl i Brynu (Cysondeb Prisio yng Ngheredigion)**

**Nick Bourne:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gysondeb prisio mewn perthynas â thai at ddibenion hawl i brynu yng Ngheredigion? (WAQ35735)

**Edwina Hart:** Mae'r gwaith o brisio tai at ddibenion hawl i brynu yn cael ei wneud yn unol â darpariaethau'r deddfau tai. Dylai'r un egwyddorion gael eu harfer ledled Cymru a Lloegr ac mae hyn, wrth gwrs, yn cynnwys Ceredigion. Dylai materion yn ymwneud â 'chysondeb prisio' gael eu codi gyda'r cyngor ac, yn y pen draw, y llysoedd.

**Hawl i Brynu (Sylfaen Prisio yng Ngheredigion)**

**Nick Bourne:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y sylfaen a ddefnyddir i brisio tai at ddibenion hawl i brynu yng Ngheredigion? (WAQ35736)

**Edwina Hart:** Rhaid i dai gael eu prisio at ddibenion hawl i brynu yn unol â darpariaethau'r deddfau tai. Mae'r rheolau hyn yn gymwys i bob landlord hawl i brynu, yn cynnwys Ceredigion. Mae gan denantiaid hawl i apelio i'r prisiwr dosbarth os nad ydynt yn fodlon â phrisiad eu heiddo.